Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Strategaeth Hamdden
2012 -17

Snowdonia National Park Authority
Recreation Strategy

www.eryri-npa.gov.uk

Drafft Ymgynghorol
Consultation Draft

PARC CENEDLAETHOL ERYRI
Ile i enaid gael llonydd

SNOWDONIA NATIONAL PARK
one of Britain's breathing spaces

Cynnwys
Contents

Rhan 1 - Cyflwyniad

Parc Cenedlaethol Eryri
Hamddena yn Eryri
Pwrpas y Strategaeth

Rhan 2 - Nodau a Gweithrediadau

Diogelu Rhinweddau Arbennig & Heddwch
Newid Hinsawdd
Ymdeimlad o Le
Mynediad i Bawb
Isadeiledd Addas
Iechyd & Lles
Sicrhau Budd Economaidd
Gweithio Mewn Partneriaeth
Integreiddiad & Ansawdd

Rhan 3 - Gweithredu, monitro & adolygu

Cynnwys budd ddeiliaid
Cyflawni Nodau cenedlaethol & rhanbarthol
Adolygiad

Atodiadau

Atodiad 1 - Hamddena Awyr Agored
Cerdded
Dringo
Beicio Mynydd
Beicio
Pysgota
Chwaraeon Dwr
Cyfeiriannu
Rhedeg bryniau a mynyddoedd
Digwyddiadau a rasus
Gweithgareddau grŵp
Marchogaeth
Chwaraeon awyr
Gweithgareddau gyrru oddi ar y ffordd

Atodiad 2 - Hamddena Diwylliannol & Amgylcheddol
Teithiau Gyrru & bws
Gwylio bywyd gwyllt
Safleoedd treftadaeth & ymweliadau ag atyniadau
Digwyddiadau a gwyliau
Astudiaeth
Celf a ffotograffiaeth

Atodiad 3 - Amcanion a Nodau Strategol Perthnasol o Gynllun Rheolaeth Parc Cenedlaethol Eryri

Atodiad 4 - Rhinweddau Arbennig
Parc Cenedlaethol Eryri

Section 1 - Introduction

Snowdonia National Park
Recreation in Snowdonia
Purpose of the Strategy

Section 2 - Aims and Actions

Protecting Special Qualities & Tranquillity
Climate change
Sense of Place
Access for All
Appropriate Infrastructure
Health & Wellbeing
Delivering Economic Benefit
Partnership Working
Integration & Quality

Section 3 - Implementation,monitoring & review

Stakeholder involvement
Delivering national & regional Aims
Review

Appendices

Appendix 1 – Active recreation
Walking
Climbing
Mountain biking
Cycling
Angling
Water sports
Orienteering
Fell and mountain running
Events and races
Group activities
Equestrian
Air sports
Motorised off-road activities

Appendix 2 - Cultural & Environmental Recreation
Driving & coach tours
Wildlife watching
Heritage sites & attraction visits
Events and festivals
Study
Art & photography

Appendix 3 - Relevant Strategic Objectives and Actions from the Snowdonia National Park Management Plan

Appendix 4 - Special Qualities of Snowdonia National Park

Chwith / **Left:** Yr Wyddfa/Snowdon © VisitWales

Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Strategaeth Hamdden
20012-2017
Snowdonia National Park Authority
Recreation Strategy

Rhan 1 – Cyflwyniad
Section 1 - Introduction



Parc Cenedlaethol Eryri
Snowdonia National Park

Ac yntau wedi cael ei ddynodi fel Parc Cenedlaethol ym 1951, Parc Cenedlaethol Eryri oedd y cyntaf i gael ei sefydlu yng Nghymru a hwn yw'r Parc un mwyaf eang. Mae'r Parc Cenedlaethol yn cynnwys 2,132 km sgwâr (823 milltir sgwâr) ac mae'n ymestyn o Gonwy yn y gogledd tuag at fynyddoedd yr Aran yn y dwyrain. Yna mae ei ffin yn dilyn Dyffryn Dyfi ar ei bwynt mwyaf deheuol tuag at Fae Ceredigion yn y gorllewin cyn dilyn yr arfordir yn ôl tuag at yr ardaloedd chwarelydda yn y gogledd.

Designated in 1951, Snowdonia National Park was the first to be established in Wales and is the most extensive. The National Park covers 2,132 square km (823 square miles) and stretches from Conwy in the north towards the Aran Mountains in the east. Its boundary then follows the Dyfi Valley as its southernmost point towards Cardigan Bay in the west before following the coastline back towards the slate quarrying areas of the north.

Mae gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol ddwy ddyletswydd statudol, a'r rhain ydi ;

The National Park Authority has two statutory duties, these are to;

Gwarchod a gwella harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol yr ardal,

Conserve and enhance the natural beauty, wildlife and cultural heritage of the area,

Hyrwyddo cyfleoedd i'r cyhoedd ddeall a mwynhau rhinweddau arbennig yr ardal

Promote opportunities for the understanding and enjoyment of the special qualities of the area by the public

Hefyd mae'n ddyletswydd i Awdurdod y Parc Cenedlaethol, wrth geisio cyflawni'r pwrpasau hyn, i feithrin lles economaidd a chymdeithasol cymunedau lleol.

The National Park Authority is also duty-bound, in pursuing these purposes to foster the economic and social-wellbeing of local communities.

Hamddena yn Eryri
Recreation in Snowdonia

Am genedlaethau, mae Eryri wedi bod yn gyrchfan bwysig ac adnabyddus ar draws y byd ar gyfer hamddena gyda chysylltiad hir sefydledig gydag amrywiaeth o weithgareddau : yr oedd yr ardal yn ddylanwadol yn ystod dyddiau cynnar mynydda, cysylltiad a gafodd ei gefnogi gan neb llai na Syr John Hunt a'i dîm cyn y llwyddwyd i ddringo Everest am y tro cyntaf: mae nifer di bendraw o artistiaid wedi cael ysbrydoliaeth gan rinweddau arbennig y Parc Cenedlaethol; ac mae astudio bioamrywiaeth a daeareg Eryri, a oedd yn arferion poblogaidd yn ystod y deunawfed ganrif, yn parhau i fod yn ddylanwadol wrth ddatblygu ein dealltwriaeth o'r byd naturiol. Yn ystod y dyddiau cynnar, ychydig o effaith a gafodd y fath weithgareddau ar yr amgylchedd a chymunedau Eryri, yn bennaf am eu bod yn oddefol neu am nad oeddynt yn hygyrch i'r cyhoedd ehangach. Dros yr hanner can mlynedd a aeth heibio daeth Eryri yn gynyddol boblogaidd ar gyfer ystod eang o weithgareddau ac yn sgi hynny cafodd ei enw fel un o'r cyrchfannau gorau ar gyfer nifer o wahanol fathau o weithgareddau.

Heddiw, mae hamddena yn darparu buddion economaidd sylweddol i'r ardal, ac yn annog pobl i ddeall a gwerthfawrogi rhai o rinweddau arbennig Eryri. Fodd bynnag, oherwydd y nifer uchel o ddefnyddwyr, mae rhai ardaloedd o Eryri yn cael eu rhoi o dan bwysau aruthrol. Yn ddiamheuaeth fe all gweithgareddau mor ddwys a chronnus niweidio'r rhinweddau hynny y mae pobl yn eu mwynhau, er enghraifft heddwch a thirweddau; mae'r ddogfen hon yn ceisio cydbwyso anghenion hamddena pobl gyda chadwraeth a gwella Eryri ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

For generations, Snowdonia has provided an important and world renowned recreation venue with a long association to a variety of activities: the area was influential during the early days of mountaineering, an association which was endorsed by Sir John Hunt and his team before the first successful ascent of Everest: countless artists have gained inspiration from the special qualities of the National Park; while the study of Snowdonia's biodiversity and geology, popular pastimes during the nineteenth century, were influential in developing our understanding of the natural world. In the early days, such pursuits had little impact upon the environment and communities of Snowdonia, mainly because they were largely passive or not accessible to the wider public. Over the past 50 years Snowdonia has become increasingly popular for a widening range of recreation activities gaining reputation as one of the world's premier destination for several types of activity.

Today, recreation provides substantial economic benefits to the area andencourages people to understand and appreciate some of Snowdonia's special qualities. However, due to the sheer number of users, certain areas of Snowdonia are placed under intense pressure. Such intense and concentrated activity can inadvertently harm those qualities which people enjoy, for example tranquillity and landscapes; this document seeks to balance people's recreation needs with those of conserving and enhancing Snowdonia for future generations.

Oherwydd ei henw da hirymarhous am ddarparu cyfleoedd hamddena amrywiaethol mae'r ardal yn cael budd yn sgil isadeiledd hamddena da sy'n cael ei fwynhau gan filiynau o unigolion yn flynyddol. Yn ogystal mae'r ardal yn cynnal nifer o weithgareddau awyr agored a chanolfannau addysgol a busnesau preifat cysylltiedig; ymysg rheiny y mwyaf nodedig yw Canolfan Astudio Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ym Mhlas Tan y Bwlch, Y Ganolfan Fynydda Genedlaethol ym Mhlas y Brenin yng Nghapel Curig, Gwersyll Yr Urdd Glanllyn, Y Ganolfan Genedlaethol Rafftio Dŵr Gwyn yn Nhryweryn a'r Ganolfan Awyr Agored yn Aberdyfi. Mae Canolfan Chwaraeon Dŵ r Genedlaethol Cymru ym Mhlas Menai, sy'n agos at y Parc Cenedlaethol hefyd yn defnyddio safleoedd o fewn Eryri. Mae bodolaeth y canolfannau hyn, ochr yn ochr â'r canolfannau aml weithgaredd fel Parc Coedwig Coed y Brenin, yn caniatáu i bobl brofi ystod eang o weithgareddau o fewn ei ffiniau.

Yn ogystal ag hamddena chwaraeon awyr agored, mae hamdden diwylliannol a hanesyddol hefyd yn bwysig i Eryri. Mae tirwedd, iaith, hanes, diwylliant a threftadaeth ddiwydiannol y Parc Cenedlaethol yn cyfuno i ddarparu ymdeimlad o le sy'n cael ei fwynhau a'i werthfawrogi gan filiynau o bobl bob blwyddyn. Mae Eryri a'i amgylchedd yn cefnogi nifer o ganolfannau sy'n bwysig yn ddiwylliannol, er enghraifft yr Amgueddfa Lechi Cymru yn Llanberis, y Ganolfan Treftadaeth Wledig - Canolfan Cywain yn Y Bala, Amgueddfa Lechi Llechwedd ym Mlaenau Ffestiniog, Canolfan Cerddoriaeth Werin Tŷ Siamas yn Nolgellau a 6 o reilffyrdd treftadaeth ar wahân.

Mae'r rhan fwyaf o dir o fewn ffin y Parc Cenedlaethol mewn perchnogaeth breifat ac yn cael ei ddefnyddio'n helaeth ar gyfer ffermio a choedwigaeth. Mae'r tirlun modern yn parhau i gael ei fowldio gan gymunedau ffermio lleol sy'n falch o'u cysylltiad â'r tirlun. Rhaid i ddatblygiad a rheolaeth hamdden fod yn ystyrlon o ffermio a ffrwythlondeb y tirlun a'i ddylanwad ar lunio Eryri.

Due to its longstanding reputation for providing diverse recreation opportunities the area benefits from a good recreation infrastructure which is enjoyed by millions of individuals annually. The area also hosts a number of outdoor activity and education centres and associated private businesses; the most notable being the Snowdonia National Park Authority's Study Centre at Plas Tan y Bwlch, The National Mountain Centre at Plas y Brenin in Capel Curig, Gwersyll Yr Urdd Glanllyn, the National White Water Rafting Centre at Tryweryn and the Outward Bound Centre at Aberdyfi. The National Water Watersports Centre for Wales at Plas Menai, close to the National Park, also uses sites within Snowdonia. The existence of these centres, alongside multi-activity centres such as Coed y Brenin Forest Park, allow people to experience a wide range of activities within its boundaries.

In addition to outdoor sports recreation, cultural and historical recreation is also important to Snowdonia. The National Park's landscape, language, history, traditions, culture and industrial heritage combine to provide a sense of place enjoyed and appreciated by millions of people each year. Snowdonia and its environs supports several centres of cultural importance, for example the Welsh Slate Museum in Llanberis, the Canolfan Cywain Rural Heritage Centre in Y Bala, Llechwedd Slate Museum in Blaenau Ffestiniog, Ty Siamas Folk Music Centre in Dolgellau and 6 separate heritage railways.

Most of the land within the National Park is privately owned and almost exclusively used for agriculture or forestry. The modern landscape continues to be moulded by local farming communities proud of their association with landscape. Recreation management and development must have regard for farming and the landscape's productive functionality and its role in shaping Snowdonia.



Pwrpas y Strategaeth Hamddena
Purpose of the Recreation Strategy

Mae'r Strategaeth hon yn adeiladu ar Gynllun Rheolaeth y Parc cenedlaethol; sy'n datgan y bydd y Strategaeth Hamddena yn "...sicrhau mynediad teg, eang a chynaliadwy sy'n cydnabod yr angen i warchod heddwch ac yn ymwrthod a gweithgareddau niweidiol...Hefyd fe fydd y Strategaeth yn ceisio rhoi hwb gadarnhaol i effeithiau economaidd a chymunedol hamddena..." Mae'r Nodau ac Amcanion y Strategaeth yn anelu wedi eu fframio gan y polisïau cynllunio yng Nghynllun Datblygu Lleol Eryri.

Mae'r Strategaeth yn cyflwyno cyfres o Nodau a Gweithrediadau y delir a hwy yn ystod y pum mlynedd nesaf. Mae'r rhain yn cael eu trefnu yn unol â themâu unigol; mae pob thema wedi cael eu hadnabod fel rhai sy'n hanfodol o ran darparu rheolaeth hamddena cynaliadwy ar gyfer un o ardaloedd mwyaf eiconig y genedl. Mae cyflawni'r Nodau ac Amcanion hyn yn helpu i wneud y gorau o'r agweddau cadarnhaol o hamddena tra'n rheoli materion negyddol fel rheolaeth traffig a chludiant, dirywiad cynefin lleol, defnydd tir sy'n gwrthdaro a gwanhau ymdeimlad o le Eryri. Mae patrwm gweithredu'r Awdurdod tuag at wella dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o rinweddau arbennig Eryri yn cael ei gyflwyno yn y Strategaeth Gyfathrebu, er bod nifer o'r gweithrediadau yn y ddogfen hon yn berthnasol.

Er mai Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri sydd wedi cyhoeddi a chydlynu'r Strategaeth, mae'n berthnasol i bawb sy'n ymwneud â rheoli gweithgareddau hamdden sy'n cael effaith ar nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol. Felly, fe ddylid gweithredu'r Nodau a'r Gweithrediadau a gyflwynir yma ar y cyd â sefydliadau partner, a datblygu'r Camau perthnasol. Dogfen ar gyfer y Parc Cenedlaethol yw hon, nid Awdurdod y Parc Cenedlaethol.

This Strategy builds upon the National Park Management Plan; which states that the Recreation Strategy shall "...ensure equitable, widespread and sustainable access which recognises the need to protect tranquillity and discourage damaging activities...The Strategy will also seek to boost the positive economic and community impacts of recreation..." The Strategy's Aims and Actions are also framed by the planning policies of the Eryri Local Development Plan.

The Strategy introduces a series of Aims and Actions which will be addressed over the next five years. These are organised according to individual themes; each theme has been identified as being vital in providing sustainable recreation management for one of the nation's most iconic areas. Delivering these Aims and Actions will help capitalise upon the positive aspects of recreation whilst managing negative issues such as traffic and transport management, localised habitat degradation, conflicting land use and the dilution of Snowdonia's sense of place. The Authority's approach to improving understanding and awareness of Snowdonia's special qualities is introduced in the Communication Strategy, although many actions included in this document are relevant.

Although published and coordinated by the Snowdonia National Park Authority, the Strategy is relevant to all those involved in managing recreation activity that impacts upon the National Park's special qualities. Accordingly, the Aims and Actions presented here should be implemented jointly with partner organisations taking forward pertinent Actions. This is a document for the National Park, not the National Park Authority.

Derbynnir efallai na chaiff yr holl Weithrediadau eu cwblhau o fewn y 5 mlynedd gyntaf; dyma'r strategaeth gyntaf o'i bath ar gyfer Eryri, a bydd yn cymryd amser i'w nodau ymsefydlu yn arferion gwaith yr Awdurdod a'i bartneriaid.

Er bod yna gydnabyddiaeth fod rhai ardaloedd yn cael eu defnyddio yn fwy dwys ar gyfer hamddena, ni chanolbwyntir yn benodol ar unrhyw ardaloedd o fewn y Strategaeth - fe fydd cynlluniau rheolaeth safle penodol yn cael eu datblygu fel bo'r angen - rôl y ddogfen hon yw darparu strategaeth ar draws y Parc ar gyfer rheolaeth a datblygu hamddena. Yn ychwanegol at hynny, gall ceisio diffinio ardal unigol neu weithgaredd penodol trwy ddefnyddio ffiniau llinellol daflu sylw oddi wrth gynnwys y strategaeth a phrofi i fod yn academaidd tra'n tynnu oddi ar ethos gwerthfawrogiad a mwynhad o rinweddau arbennig Eryri. Bydd cynlluniau rheolaeth safle / penodol i safle yn galluogi'r Awdurdod i weithredu patrwm gweithredu holistaidd ac arloesol tuag at gapasiti a rheolaeth gweithgaredd ar lefel meicro.

Mae'r Strategaeth yn canolbwyntio ar y Parc Cenedlaethol tra'n cydnabod pwysigrwydd ardaloedd y tu hwnt i'r ffin gan gynnwys trefi cyfagos, dwy ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol, Safleoedd Treftadaeth y Byd sy'n berthnasol i Gastell Harlech a rhannau o Ardal Biosffer UNESCO Dyfi y tu allan i ffin y Parc Cenedlaethol.

Mae'r Strategaeth yn cynnig cyfeiriad clir ar gyfer rheoli hamddena o fewn y Parc Cenedlaethol trwy sicrhau gweithgareddau hamddena sy'n:

1. Gwarchod rhinweddau arbennig Eryri rhag effeithiau niweidiol hamddena a mathau amhriodol o weithgareddau
2. Hyrwyddo mwynhad diogel a chyfrifol o rinweddau arbennig y Parc Cenedlaethol
3. Cyflawni twf economaidd cynaliadwy ac eang yn seiliedig ar rinweddau arbennig Eryri
4. Gwella mynediad at weithgareddau hamddena o ansawdd uchel ar hyd a lled y Parc Cenedlaethol sy'n hyrwyddo iechyd a lles a dealltwriaeth
5. Cyflawni isadeiledd sy'n briodol i anghenion cwsmeriaid, yn enwedig safleoedd a lleoliadau poblogaidd trwy gefnogi llwybrau priodol, isadeiledd cludiant a chyfleusterau cyhoeddus
6. Cefnogi gwell dealltwriaeth rhwng grwpiau defnyddwyr a thirfeddianwyr, trwy gyfrwng mecanweithiau fel y Fforymau Mynediad Lleol
7. Hyrwyddo ymglymiad y gymuned a busnesau mewn rheolaeth hamddena

It is accepted that not all Actions may be completed within the initial 5 years; this is the first strategy of its kind for Snowdonia and its aims will take time to bed into the Authority's and partners' ways of working.

Although there is recognition that certain areas are used more intensely for recreation, no areas are explicitly focused upon within the Strategy - specific site management plans will be developed as necessary – the role of this document is to provide a Park-wide strategy for recreation management and development. In addition, trying to define a single area or specific activity using linear borders may deflect attention away from the strategy's content and prove to be academic whilst detracting from the ethos of appreciation and enjoyment of Snowdonia's special qualities. Forthcoming site / activity specific management plans will enable the Authority to take a holistic and innovative approach to capacity and activity management at the micro level.

The Strategy focuses on the National Park whilst acknowledging the importance of areas outside the boundary including nearby towns, two Areas of Outstanding Natural Beauty, World Heritage Sites related to Harlech Castle and parts of the Dyfi UNESCO Biosphere Area outside the National Park boundary.

The Strategy proposes a clear direction for recreation management within the National Park by ensuring that recreation activities;

1. Protect Snowdonia's special qualities from the adverse effects of recreation and inappropriate types of activity
2. Promote safe and responsible enjoyment of the National Park's special qualities
3. Deliver sustainable, widespread economic growth based on the special qualities of Snowdonia
4. Improve access to high quality recreation activities across the National Park which promote health and wellbeing and understanding
5. Deliver an infrastructure appropriate to the needs of customers, especially at popular sites and locations by advocating appropriate trails, transport infrastructure and public facilities
6. Advocate better understanding between user groups and landowners, through mechanisms such as the Local Access Fora
7. Promote community and business involvement in recreation management

Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Strategaeth Hamdden
20012-2017
Snowdonia National Park Authority
Recreation Strategy

Rhan 2 - Nodau a Gweithrediadau
Section 2 - Aims and Actions

Diogelu Rhinweddau Arbennig a Llonyddwch
Protecting Special Qualities & Tranquillity

Mae llonyddwch yn rhinwedd sydd wedi ei gysylltu ers tro byd gyda'n Parciau Cenedlaethol yn nhermau gwerth hamddena'r ardal. Dylai hamddena yn Eryri gael ei osod yng nghyd-destun sut i ganiatáu ystod o gyfleoedd hamddena yn seiliedig ar rinweddau arbennig yr ardal, fel y'i diffinnir yng Nghynllun Rheolaeth y Parc (Atodiad 4), heb gael effaith negyddol arnynt nac ar ddefnyddwyr eraill. Dylid cyflawni mesurau i ddelio gydag effeithiau niweidiol gweithgareddau sy'n tanseilio'r rhinweddau hyn.

Er mwyn i hyn gael ei gyflawni, mae'n rhaid darparu rheolaeth hamddena effeithiol, gan leihau'r aflonyddwch cymaint â phosib a lleihau'r meysydd o wrthdaro, tra'n cynnal yr ystod o ddewis. Yn ychwanegol at hynny mae'n rhaid i i reolaeth hamddena gydnabod fod rhai ardaloedd o Eryri yn cael ei ddefnyddio yn llawer mwy nac eraill, yn fwyaf nodweddiadol Masif yr Wyddfa a Dyffryn Ogwen; felly mae angen ymdrechion mwy dwys i warchod yr ardaloedd hyn. Bydd gwaith yn y dyfodol i fapio'r ardaloedd hyn sy'n cael eu defnyddio fwy yn bwydo gwybodaeth i adolygiadau o'r Strategaeth hon.

Nod - sicrhau fod gweithgareddau hamddena yn parchu rhinweddau arbennig a heddwch Eryri

Gweithrediadau

1. Lle bo'r angen, cyflwyno Codau Ymddygiad a gytunwyd yn genedlaethol a neu / Breinlenni Hamddena er mwyn lleihau'r nifer o wrthdrawiadau rhwng grwpiau defnyddwyr, chadwraeth a rheolwyr tir
2. Gwella dehongli a rheolaeth safle er mwyn lleihau'r adegau pan fo cynefinoedd neu fywyd gwyllt yn cael eu haflonyddu trwy ddarparu gwybodaeth ynghylch pan fo safleoedd yn cael eu diogelu
3. Darparu dehongliad / arwyddion sy'n ymwrthod a hamddena sy'n effeithio ar lonyddwch, fel chwaraeon modur anghyfreithlon oddi ar y ffordd
4. Mynd i'r afael ag effeithiau hamddena ar y dirwedd a bioamrywiaeth, yn enwedig mewn ardaloedd sy'n cael eu defnyddio lawer a datblygu cynlluniau gweithredu yn unol â hynny
5. Darparu arweiniad ac esiamplau o arfer gorau ar gyfer trefnu a chymryd rhan mewn gweithgareddau, cynghori ar amseriad digwyddiadau, cludiant a chlirio / tacluso wedyn
6. Peidio ag annog digwyddiadau sy'n aflonyddu ar fioamrywiaeth Eryri
7. Hyrwyddo ymchwil i gapasiti safleoedd dynodedig i allu ymdopi gyda'r galw o du hamddena
8. Defnyddio pwerau deddfwriaethol perthnasol i leihau effeithiau negyddol anghyfrifol ac anghyfreithlon o hamddena cerbydol oddi ar y ffordd ar rinweddau arbennig

Tranquillity is a quality long associated with our National Parks and an important aspect in terms of the area's recreation value. Recreation in Snowdonia should be set in the context of how to allow a range of recreation opportunities based on the areas special qualities, as defined in the Park Management Plan (Appendix 4), without having a negative effect upon them or other users. Measures should be taken to negate the damaging effects of activities which undermine these qualities.

In order for this to be achieved, effective recreation management must be provided, minimising disturbance and reducing areas of conflict, whilst maintaining choice. In addition, recreation management must recognise that certain areas of Snowdonia are more heavily used than others, most notably the Snowdon Massif and the Ogwen Valley; therefore more intensive efforts are required to protect these areas. Future work to map these heavily used areas will inform future revisions of this Strategy.

Aim - Ensure that recreation activities respect Snowdonia's special qualities and tranquillity

Actions

1. Where necessary introduce nationally agreed Codes of Conduct and/or Recreation Charters to reduce areas of conflict between user groups, conservation and land managers
2. Improve interpretation and site management to reduce instances of habitat or wildlife disturbance by providing information on why sites are protected
3. Provide interpretation / signage which discourages recreation which impacts upon tranquillity, such as illegal off-road motor sports
4. Address the landscape and biodiversity impacts of recreation, especially in areas of high use and develop action plans accordingly
5. Provide guidance and examples of best practice for those organising and taking part in events, advising upon event timing, transport and clean-up
6. Discourage events which disturb Snowdonia's biodiversity
7. Promote research into the capacity of designated sites to cope with the recreation demand
8. Use relevant legislative powers to reduce the negative effects of irresponsible and illegal off-road vehicular recreation on special qualities

Newid Hinsawdd
Climate Change

Er bod gallu Eryri i ddylanwadu ar newid yn yr hinsawdd yn fyd-eang yn gyfyngedig, rhagwelir y bydd yn effeithio ar fioamrywiaeth, tirwedd ac isadeiledd yr ardal gyda chynnydd mewn patrymau tywydd annisgwyl a stormydd mwy eithafol. Mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn gweithio gyda phartneriaid i leihau'r effeithiau hyn a lliniaru yn erbyn newidiadau na ellir mo'i hosgoi, er enghraifft trwy hyrwyddo cysylltedd ecolegol a lleihau gollyngiadau carbon - y rhai mwyaf nodedig y rhai sy'n gysylltiedig â chludiant.

Mewn perthynas â hamddena, fe all newid hinsawdd newid lefelau afonydd, llynnoedd a chronfeydd dwr mwyaf sydyn ac fe all waethygu erydiad llwybrau troed trwy gyfrwng tywydd eithafol neu annhymhorol. Yn ychwanegol at hynny, fe all caledwch cynefinoedd a rhywogaethau mwy ymylol gael eu heffeithio yn fwy difrifol gan weithgaredd hamddena amhriodol.

Nod - Monitro, lleihau a lliniaru effeithiau hamddena mewn perthynas â newid hinsawdd

Camau Gweithredu

1. Datblygu llwybrau gyda therfynfeydd ac arosfeydd cludiant cyhoeddus trwy farchnata a hyrwyddo ar y cyd.
2. Monitro effeithiau tywydd eithafol ar y rhwydwaith Hawliau Tramwy Cyhoeddus ac uwchraddio fel bo'r angen.
3. Hyrwyddo teithiau hamdden ar gludiant cyhoeddus, er enghraifft ar Reilffordd y Cambrian a Rheilffordd Dyffryn Conwy trwy gefnogi partneriaethau cludiant lleol.
4. Hyrwyddo teithio cynaliadwy a rheoli niferoedd trwy addasu prisiau tocynnau, gwneud cynigion arbennig ac annog gweithio mewn partneriaeth, megis Menter y Goriad Gwyrdd.
5. Hyrwyddo cynnyrch a gwasanaethau lleol ymysg darparwyr y farchnad hamdden gan roi cyhoeddusrwydd i gynnyrch a darparwyr lleol trwy ymgyrchoedd marchnata / hyfforddi.

Although Snowdonia's capacity to influence global climate change is limited, its effects are predicted to impact upon the area's biodiversity, landscape and infrastructure with increases in unpredictable weather patterns and more extreme storms. The National Park Authority is working with partners to reduce these impacts and mitigate against unavoidable changes, for example by promoting ecological connectivity and reducing carbon emissions – most notably those attributed to transport.

With regard to recreation, climate change may alter river, lake and reservoir levels suddenly and accentuate footpath erosion through more extreme and unseasonal weather. In addition, the resilience of marginal habitats and species may be more s eriously affected by inappropriate recreation activity.

Aim - Monitor, reduce and mitigate the effects of recreation in relation to climate change

Actions

1. Develop links between trails and public transport terminals and halts through joint marketing and promotion
2. Monitor the effects of extreme weather events upon the Public Rights of Way network and upgrade as appropriate
3. Promote recreational travel on public transport, for example along the Cambrian Coast and Conwy Valley Line railways by supporting local transport partnerships
4. Promote sustainable travel and capacity management through ticket pricing, offers and incentives by working in partnership, such as the Snowdonia Green Key Initiative
5. Promote local goods and services to recreation providers by publicising local produce and providers through targeted marketing / training campaign

Naws am le
Sense of Place

Mae hunaniaeth ddiwylliannol Eryri mor amlwg ac unigryw â'i dirwedd a'i dreftadaeth naturiol. Mae nifer o rinweddau'r Parc Cenedlaethol yn ymwneud â'i iaith, ei dreftadaeth naturiol, ei amgylchedd hanesyddol a'i gysylltiadau diwylliannol; mae'r ffactorau hyn yn cyfuno i lunio syniad cryf o le, gan gynnig gwahanol gyfleoedd o safbwynt adloniant.

Mae'r Strategaeth yn ceisio gwella'r ymdeimlad o le yn Eryri.

Nod - Sicrhau bod gweithgareddau adloniant a'r gwaith o'u hyrwyddo yn diogelu ac yn gwella'r ymdeimlad o le yn Eryri.

Camau Gweithredu

1. Datblygu'r cysyniad o 'byrth diwylliannol' er mwyn gwella mynediad i weithgareddau hamdden diwylliannol a chefnogi atyniadau diwylliannol
2. Cefnogi digwyddiadau a gwyliau sydd yn dathlu rhinweddau arbennig y Parc Cenedlaethol trwy ddarparu cyhoeddusrwydd a chyngor.
3. Datblygu strategaethau rhanbarthol sydd yn amlygu rhinweddau eithriadol Eryri a hyrwyddo gweithgareddau hamdden sy'n berthnasol iddynt
4. Amlygu pwysigrwydd y dreftadaeth adeiledig o safbwynt diogelu hunaniaeth ddiwylliannol yr ardal
5. Gwella ystyriaeth a dealltwriaeth o dreftadaeth ddiwylliannol anghyffwrdd, gan gynnwys yr iaith Gymraeg, o fewn y sector hamdden, er enghraifft trwy ddarparu tywyswyr mynydd gyda hyfforddiant ar agweddau o dreftadaeth ddiwylliannol ac ieithyddol
6. Cefnogi a chyflawni gwelliannau i'r cysylltiadau ffisegol rhwng safleoedd treftadaeth ac atyniadau trwy wella mynediad a llwybrau

The cultural identity of Snowdonia is as notable and unique as its landscape and natural heritage. Several of the National Park's special qualities relate to its language, cultural heritage, historic environment and cultural associations; these factors combine to provide a strong sense of place, providing diverse recreation opportunities.

The Strategy seeks to enhance Snowdonia's sense of place.

Aim - Ensure that recreation activities and their promotion conserve and enhance Snowdonia's sense of place

Actions

1. Develop the concept of 'cultural gateways' to improve access to cultural recreation by supporting cultural attractions
2. Support events and festivals which celebrate the National Park's special qualities by providing publicity and advice
3. Develop regional strategies which highlight Snowdonia's inspirational qualities and promote relevant associated recreation activity
4. Highlight the importance of the built heritage in conserving the area's cultural identity
5. Improve consideration and understanding of intangible cultural heritage, including the Welsh language within the recreation sector, for example by providing mountain guides with training on aspects of cultural and linguistic heritage
6. Support and deliver improvements to the physical linkages between heritage sites and attractions by improving access and trails

Mynediad i Bawb
Access for All

Ni ddylai unrhyw un gael ei atal rhag profi rhinweddau arbennig Eryri oherwydd rhwystrau ffisegol neu gymdeithasol – boed y rhain yn weladwy neu beidio. Fodd bynnag, mae'n rhaid cyfaddef bod pobl o gymunedau difreintiedig, pobl anabl a grwpiau ethnig lleiafrifol yn mynd i gefn gwlad yn llawer llai aml na chyfartaledd y boblogaeth yn gyffredinol. Mae angen gwneud ymdrech i gywiro'r materion mynediad hyn a sicrhau cyfleoedd teg i bawb.

Nod - Darparu ystod eang o gyfleoedd sydd yn hawdd cael mynediad atynt

Camau Gweithredu

1. Cynyddu hyd y llwybrau aml ddefnydd a di-rwystr, o bosibl defnyddio gwelyau traciau rheilffordd segur ac uwchraddio llwybrau presennol er mwyn creu llwybrau gyda'r nifer lleiaf bosibl o rwystrau
2. Darparu a hyrwyddo cyfres o ddigwyddiadau er mwyn annog pobl anabl i fwynhau a phrofi rhinweddau arbennig Eryri
3. Ceisio adnoddau ychwanegol er mwyn cynnig cefnogaeth ac anogaeth i bobl o ardaloedd difreintiedig fel y gallant fwynhau a phrofi rhinweddau arbennig Eryri
4. Sicrhau bod cyrchfannau hamdden yn cynnig cyfleusterau addas a hygyrch ar gyfer yr holl ddefnyddwyr trwy ymgynghori gyda chyfranddeiliaid a grwpiau defnyddwyr.
5. Adolygu a chyflwyno adroddiad am addasrwydd y ddarpariaeth bresennol ar gyfer pobl anabl
6. Annog trefnwyr digwyddiadau mentrus i ddarparu sesiynau 'blasu' er mwyn denu cyfranogwyr newydd
7. Adnabod safleoedd lle gellir gwella a hyrwyddo mynediad at ddŵr mewndirol

No one should be deprived of experiencing the special qualities of Snowdonia because of physical or social barriers – either perceived or otherwise. However, it is recognised that people from deprived communities, disabled people and ethnic minority groups access the countryside less frequently than the general population average. Efforts are required to address these accessibility issues to ensure equitable opportunity.

Aim - Provide a diverse range of opportunities that are easily accessible

Actions

1. Increase the length of multiuser and barrier free paths possibly using redundant track beds and upgrading existing trails to create paths of least resistance
2. Provide a series of facilitated events to encourage disabled people to enjoy and experience Snowdonia's special qualities
3. Seek additional resources to provide support and encouragement for people from disadvantaged areas to enjoy and experience Snowdonia's special qualities
4. Ensure recreation destinations provide appropriate and accessible facilities and services for all users by consulting with stakeholder and user groups
5. Review and report upon the effectiveness of current provision for disabled people
6. Encourage the organisers of elite events to provide 'taster' sessions to encourage new participants
7. Identify sites at which access to inland waters can be improved and promoted

Isadeiledd Addas
Appropriate infrastructure

Mae darparu isadeiledd sydd yn addas i anghenion grwpiau defnyddwyr hamdden yn hanfodol os am wireddu amcanion y Strategaeth ac amcanion y sefydliadau sydd yn bartneriaid. Trwy ddarparu gwelliannau o'r fath, caiff mwy o bobl eu hysgogi i gymryd rhan mewn gweithgareddau, ac ar yr un pryd byddwn yn gallu rheoli ymwelwyr yn well, trwy annog dosbarthiad gwell o weithgareddau hamdden ar hyd a lled Eryri.

Mae sicrhau isadeiledd addas hefyd yn creu cyfleoedd ehangach ar gyfer datblygu economaidd, gwella cynhwysiad cymdeithasol a gwerthfawrogiad.

Nod - Darparu isadeiledd fydd yn annog pobl i brofi rhinweddau arbennig Eryri mewn modd cyfrifol a chynaliadwy

Camau Gweithredu

1. Gwella mynediad i diroedd dan berchnogaeth a / neu nawdd cyhoeddus
2. Parhau i wella mynediad a chynnal llwybrau'r ucheldiroedd, Hawliau Tramwy Cyhoeddus a thir mynediad agored ar hyd a lled y Parc Cenedlaethol
3. Ceisio cytundeb fydd yn ein galluogi i ddefnyddio gwelyau traciau rheilffyrdd segur ar gyfer llwybrau hamdden
4. Adnabod anghenion grwpiau hamdden penodol er mwyn sicrhau isadeiledd a gwelliannau addas o safbwynt rheoli cyrchfannau
5. Adnabod llwybrau hirion a llwybrau cylchol a fydd o bosibl yn ychwanegu gwerth i lwybrau presennol ac ar yr un pryd yn gwella rheolaeth llwybrau
6. Llunio fframwaith gynaliadwy ar gyfer datblygu gweithgareddau hamdden newydd a blaengar yn Eryri tra hefyd yn diogelu rhinweddau arbennig yr ardal
7. Arwain datblygiadau addas tuag at ardaloedd sy'n gallu ymdopi â thwf a chynnydd mewn nifer ymwelwyr, arolygu mynediad, cludiant cyhoeddus ac ystyriaethau tirwedd

Providing an infrastructure appropriate to the needs of recreation user groups is vital to the delivery of the Strategy's Aims and those of partner organisations. By providing such improvements, more people will be encouraged to take part in activities, whilst facilitating better visitor management by encouraging improved distribution of recreation activities throughout Snowdonia.

Delivering a suitable infrastructure also creates wider opportunities for economic development, improved social inclusion and appreciation.

Aim - Provide an infrastructure which encourages people to experience Snowdonia's special qualities in a responsible and sustainable way

Actions

1. Improve access to publicly owned and / or sponsored land
2. Continue to improve access and maintain upland footpaths, Public Rights of Way and open access land throughout the National Park
3. Seek agreement for the use of redundant railway track beds for use as recreation trails
4. Identify the needs of specific recreation groups to ensure an appropriate infrastructure and improvements in destination management
5. Identify potential long distance and circular routes that add value to existing trails whilst improving trail management
6. Develop a sustainable framework for the evolution of new and innovative recreational activities in Snowdonia whilst protecting its special qualities
7. Guide appropriate development to areas able to accommodate growth in terms of visitor capacity, access, public transport and landscape considerations

Iechyd a Lles
Health and Wellbeing

Mae gan Eryri rôl i'w chwarae yn y gwaith o hyrwyddo a gwella lefelau iechyd a lles yn genedlaethol. Mae gweithgareddau hamdden, gweithredol ac anweithredol, yn gymorth i wella lles corfforol a meddyliol.

Trwy hyrwyddo mwynhad o rinweddau arbennig y Parc Cenedlaethol, gall yr Awdurdod a'i bartneriaid wireddu amcanion yn ymwneud â hyrwyddo ffyrdd iach a mwy gweithredol o fyw. Bydd cyflawni'r amcanion hyn hefyd yn annog rhagor o bobl i fwynhau a deall rhinweddau arbennig Eryri.

Nod - Hyrwyddo manteision iechyd a lles gweithgareddau hamdden

Camau Gweithredu

1. Datblygu a hyrwyddo llwybrau / teithiau a mentrau eraill fydd yn cynyddu ymwybyddiaeth cymunedau ynghylch manteision iechyd a lles gweithgareddau hamdden
2. Hyrwyddo Eryri – yn genedlaethol a rhyngwladol – fel cyrchfan ar gyfer gweithgareddau hamdden iach, trwy weithio gyda'r sector dwristiaeth
3. Adeiladu ar lwyddiannau'r Fenter Rhwydweithiau Hamdden
4. Gwella cyflwr y rhwydwaith llwybrau, gan gynnwys llwybrau'r ucheldir, yn unol â Chynlluniau Gwella Hawliau Tramwy perthnasol
5. Datblygu rhwydwaith beicio o ansawdd uchel, gan gynnwys llwybrau aml-ddydd ac o bosibl defnyddio gwelyau traciau rheilffyrdd segur
6. Gwneud gwaith ymchwil er mwyn canfod pam nad yw rhai sectorau o fewn cymdeithas yn manteisio ar y cyfleoedd hamdden sydd ar gael yn lleol

Snowdonia has a role to play in promoting and delivering improvements to national health and wellbeing levels. Recreation, both active and passive, helps improve physical and mental wellbeing.

By promoting enjoyment of the National Park's special qualities the Authority and its partners can achieve goals relating to promoting healthier and more active lifestyles. Achieving these aims will also encourage more people to enjoy and understand Snowdonia's special qualities.

Aim - Promote the health and wellbeing benefits of recreation

Actions

1. Develop and promote trails / walks and other initiatives which increase awareness among communities of the health and wellbeing benefits of recreation
2. Promote Snowdonia as a destination for healthy recreation activity both nationally and internationally by working with the tourism sector
3. Build upon the successes of the Leisure Networks Initiative
4. Improve the condition of the footpath network, including upland footpaths, in line with relevant Rights of Ways Improvement Plans
5. Develop a high quality cycle network, including a multi-day trails possibly using redundant railway beds
6. Conduct research to identify why some sectors of society do not capitalise on local recreation opportunities

Sicrhau Budd Economaidd
Delivering Economic Benefit

Dengys astudiaethau bod gweithgareddau hamdden gweithredol yn dod ag o leiaf £60 miliwn i'r economi leol ac yn cyflogi tua 4,000 o bobl, yn bennaf ar sail tirwedd fynyddig ac arfordir Eryri. Mae astudiaethau cenedlaethol hefyd wedi profi gwerth economaidd yr amgylchedd hanesyddol, ac o ystyried dwysedd safleoedd hanesyddol, Adeiladau Rhestredig, Safle Treftadaeth y Byd ac Ardaloedd Cadwraeth mae cyfraniad yr ardal yn debygol o fod yn sylweddol iawn. Mae llawer o'r incwm hwn yn deillio o rinweddau arbennig Eryri; mae eu diogelu yn hanfodol i economi'r rhanbarth, a byddai eu gwella yn hyrwyddo datblygu economaidd cynaliadwy ymhellach fyth.

Nod - Hyrwyddo twf addas a chynaliadwy o fewn y sector hamddena

Camau Gweithredu

1. Darparu gwybodaeth i fusnesau ar sut i gynyddu eu cynaladwyedd amgylcheddol a diwylliannol
2. Amlygu pwysigrwydd hamdden i'r economi a rhoi mwy o sylw i gynllunio gofodol ac economaidd
3. Cefnogi rhaglenni sydd yn anelu at gynyddu lefelau hyfforddiant a sgiliau ar gyfer pobl ifanc trwy wahodd ceisiadau ar gyfer prosiectau a mentrau addas oddi wrth ddarparwyr hyfforddiant
4. Archwilio'r posibilrwydd o ddatblygu cynllun anrhegu ymwelwyr yn Eryri er mwyn cynorthwyo i ddiogelu a gwella cyfleusterau
5. Hyrwyddo datblygiadau hamdden addas eu maint mewn pentrefi ac aneddiadau llai er mwyn hyrwyddo cymunedau bywiog
6. Parhau gydag ymdrechion i ymestyn tymor gweithgareddau hamdden trwy hyrwyddo digwyddiadau 'allan o dymor' a hyrwyddo Eryri fel cyrchfan 'gydol y flwyddyn'

Studies show that activity based recreation provides at least £60 million to the local economy whilst employing some 4,000 people; mostly based upon Snowdonia's mountainous terrain and coast. National studies have also proven the economic value of the historic environment; given the local concentration of historic sites, Listed Buildings, World Heritage Site and Conservation Areas its contribution is also likely to be significant. Much of this income is derived from Snowdonia's special qualities; their protection is vital to the region's economy, whilst enhancement could bring further sustainable economic development.

Aim - Promote appropriate and sustainable growth within the recreation sector

Actions

1. Provide businesses with information on how to improve their environmental and cultural sustainability
2. Highlight the economic importance of recreation and improve consideration in spatial and economic planning
3. Support programmes aimed at increasing training and skills levels for local people by inviting appropriate project applications and initiatives from training providers
4. Explore the potential to develop a visitor gifting scheme in Snowdonia to help protect and improve facilities
5. Promote appropriately scaled recreation development in villages and smaller settlements to promote vibrant communities
6 Continue with efforts to reduce the seasonality of outdoor recreation activity by promoting 'out of season' events and Snowdonia as a 'year-round' destination



Gweithio Mewn Partneriaeth
Partnership Working

Er mwyn cyflawni'r amcanion a osodir yn y Strategaeth hon, bydd yn rhaid i'r Awdurdod weithio gyda phartneriaid o blith y sectorau preifat, cyhoeddus a gwirfoddol; bydd partneriaethau sefydledig sy'n ymwneud â mynediad i gefn gwlad, cludiant cynaliadwy, twristiaeth a datblygu economaidd yn bartneriaid hanfodol.

Bydd partneriaethau allweddol eraill yn cynnwys y rhai gyda Chyngor Sir Gwynedd a Chyngor Bwrdeistref Conwy, yn bennaf oherwydd eu swyddogaeth fel awdurdodau priffyrdd gyda phrif gyfrifoldeb dros gynhyrchu Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy.

Nod - Hyrwyddo gweithio mewn partneriaeth ledled y sector hamdden

Camau Gweithredu

1. Cynyddu cyfranogiad y gymuned o safbwynt rheoli cyfleusterau a gwasanaethau hamdden trwy gyfrwng cynlluniau megis trosglwyddo asedau ac adnabod anghenion hamdden lleol
2. Datblygu agwedd fwy strategol tuag at ddatblygu cyfleoedd hamdden a rheoli trafnidiaeth trwy weithio o fewn partneriaethau rhanbarthol
3. Datblygu llwybrau fydd yn ychwanegu gwerth i deithiau sy'n bodoli / sy'n cael eu datblygu, er enghraifft Llwybr Arfordir Cymru, Taith Ardudwy a Chylchdaith Yr Wyddfa
4. Cynyddu cyfleoedd a chefnogaeth ar gyfer gwirfoddolwyr trwy ddarparu cefnogaeth logistaidd a chynorthwyo gyda datblygu rhaglenni gwaith fel bo angen
5. Gweithredu'r camau a nodir o fewn cynlluniau rheoli safleoedd a chyrchfannau
6. Gyda phartneriaid, gweithredu Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy ar gyfer Gwynedd a Chonwy
7. Sicrhau bod partneriaid yn tynnu sylw at nodweddion arbennig Eryri mewn deunydd cyhoeddusrwydd, a chydnabod yr un pryd bod yr ardal yn fregus o ran gorddatblygiad

To achieve the actions established in this Strategy, the Authority must work with partners from the public, private and voluntary sectors; established partnerships relating to countryside access, sustainable transport, tourism and economic development will be crucial.

Other key partnerships include those with Gwynedd County Council and Conwy Borough Council, primarily in their respective roles as highway authorities with overall responsibility in producing the Rights of Ways Improvement Plans.

Aim - Promote partnership working throughout the recreation sector

Actions

1. Increase community participation in managing recreation facilities and services through schemes such as asset transfers and identification of local recreation issues
2. Develop a more strategic approach to the development of recreational opportunities and traffic management by working through regional partnerships
3. Develop trails which add value to existing / in-development routes, for example the Wales Coastal Path, Taith Ardudwy and the Cylchdaith Y Wyddfa
4. Increase opportunities and support for volunteers by providing logistical support and assisting in developing work programmes as appropriate
5. Deliver actions contained within site and destination management plans
6. Implement in partnership Rights of Ways Improvement Plans for Gwynedd and Conwy
7. Ensure partners highlight Snowdonia special qualities in publicity material whilst acknowledging the areas fragility from over development

Integreiddiad ac Ansawdd
Integration and Quality

Mae Eryri yn darparu ystod eang o gyfleoedd hamdden o ansawdd uchel gyda chyfleusterau sydd yn addas i nofyddion ac arbenigwyr fel ei gilydd, ac mae cynnal yr amrywiaeth a'r ansawdd yma yn hanfodol er mwyn annog defnyddwyr lleol ac ymwelwyr i fwynhau rhinweddau arbennig y Parc Cenedlaethol. Ar gyfer denu cynulleidfaoedd newydd, grwpiau diddordebau cymysg megis teuluoedd ac annog ymweliadau pellach mae darparu ystod eang o weithgareddau yn hanfodol.

Bydd darparu camau sydd yn canolbwyntio ar y thema hon yn gofyn am gydweithrediad sylweddol rhwng y sectorau cyhoeddus a phreifat.

Nod - gwella'r integreiddiad rhwng y gwahanol weithgareddau hamdden

Camau Gweithredu

1. Datblygu map rhyngweithiol ar y we yn dangos cyfleoedd hamdden a'u lleoliad ledled y Parc Cenedlaethol gyda rhyngwyneb ffôn deallus
2. Gwella llwybrau rhwng y safleoedd hanesyddol a diwylliannol
3. Cefnogi a datblygu Canolfannau Rhagoriaeth o fewn – ac o fewn cyrraedd – ffin y Parc Cenedlaethol er mwyn cynnig adnoddau o'r radd flaenaf i'r sector gweithgareddau awyr agored
4. Datblygu a gweithredu cynlluniau rheoli dynodiadau ar gyfer safleoedd allweddol o fewn Eryri
5. Yn y dyfodol, lleoli datblygiadau sy'n ymwneud â gweithgareddau hamdden mewn lleoliadau sydd yn gallu derbyn twf ychwanegol, sef y rhai a nodir mewn strategaethau a chynlluniau lleol a rhanbarthol
6. Lledaenu ymarfer a dyluniad da er mwyn sicrhau y darperir isadeiledd o ansawdd uchel mewn canolfannau gweithgareddau hamdden.
7. Annog darparwyr gweithgareddau hamdden i gynnig gweithgareddau am ddim er mwyn ehangu eu hapêl ac annog ymweliadau pellach
8. Sicrhau bod y ddarpariaeth isadeiledd yn cwrdd â disgwyliadau'r cwsmeriaid trwy weithredu cynlluniau rheoli cyrchfan yn effeithiol

Snowdonia provides a wide range of high quality recreation opportunities with facilities catering for novices and experts alike. Maintaining this diversity and quality is vital in encouraging local users and visitors to enjoy the National Park's special qualities. Providing a range of activities is important in attracting new audiences, mixed interest groups such as families and encouraging repeat visits.

Delivering actions centred on this theme will require substantial cooperation between the public and private sectors.

Aim - improve integration between recreation activities

Actions

1. Develop an interactive web based map of recreation opportunities and locations across the National Park with smartphone interface
2. Improve trails between historic and cultural sites
3. Support and develop Centres of Excellence within and close to the National Park boundary to provide exemplar resources to the outdoor sports sector
4. Develop and implement destination management plans for key sites within Snowdonia
5. Focus future recreation development within locations able to accommodate additional growth as identified in local and regional strategies and plans
6. Disseminate good practice and design to ensure a high quality infrastructure is provided at recreation centres
7. Encourage recreation providers to offer complementary activities which broaden their appeal and encourage repeat visits
8. Ensure infrastructure provision meets customer expectation through effective implementation of destination management plans

Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Strategaeth Hamdden
20012-2017
Snowdonia National Park Authority
Recreation Strategy

Adran 3 – Gweithredu, Monitro ac Adolygu
Section 3 – Implementation, Monitoring & Review



Rhan y Cyfranddeiliaid
Stakeholder involvement

Ni ellir gweithredu'r strategaeth hon ar ein pennau ein hunain; bydd angen nifer fawr o sefydliadau i gydweithio er mwyn gwireddu holl amcanion a bwriadau'r Strategaeth sydd wedi eu cynnwys yn y ddogfen. Trwy wneud hyn, bydd Eryri a'r rhanbarth ehangach yn derbyn mantais oherwydd yr agwedd gydlynol a strategol tuag at ddatblygu a rheoli gweithgareddau hamdden, ac yn arwain at ddatblygu addas a chynaliadwy o fewn y sector. Bydd gweithio mewn partneriaeth hefyd yn gwella'r modd y darperir gwasanaethau ac yn cynyddu gwerth am arian.

Fel partner arweiniol, bydd yr Awdurdod yn cydlynu ac yn arolygu'r cynnydd. Bydd yn gwneud hyn trwy fonitro cynnydd yn erbyn y Gweithredu ac yn cynnig atebion lle bydd y cynnydd yn ddiffygiol; caiff y gwaith monitro ei gofnodi yn Adroddiad Sefyllfa'r Parc.

Mae'r sector hamdden yn Eryri yn derbyn cymorth oddi wrth nifer o bartneriaethau effeithiol megis y Fforymau Mynediad ar gyfer Gogledd a De Eryri a Phartneriaeth Awyr Agored Gogledd Cymru. Caiff y diwydiant gweithgareddau awyr agored ei gynrychioli'n dda gan sefydliadau megis Eryri Bywiol a chaiff diddordebau diwylliannol eu cynrychioli trwy fenter yr Awdurdod sef Bwrlwm Eryri a nifer o gymdeithasau hanes a diwylliant lleol, Cadw, a chymdeithasau masnach twristiaeth. Felly, ni thybir bod angen fforwm neu bartneriaeth newydd i weithredu'r amcanion a nodir yn y Strategaeth hon. Hefyd, mae Eryri yn derbyn gwasanaeth gan ddwy Bartneriaeth Twristiaeth a grwpiau twristiaeth eraill sydd â chysylltiad uniongyrchol gyda nifer o'r amcanion ac a fydd yn gallu cynorthwyo gyda'u gweithredu.

Implementation of this strategy cannot be done in isolation; many organisations will be required to cooperate and deliver the Strategic Aims and Actions included in the document. By doing so, Snowdonia and the wider region will benefit from a cohesive and strategic approach to recreation development and management, allowing for appropriate and sustainable development within the sector. Partnership working will also improve service delivery and value for money.

As a lead partner, the Authority will coordinate and oversee progress. It will do so by monitoring progress against the Actions whilst offering solutions where progress is defective; the monitoring will be reported in the State of the Park Report.

The recreation sector in Snowdonia benefits from several effective partnerships; such as the Northern and Southern Snowdonia Access Fora and the North Wales Outdoor Partnership. The outdoor recreation industry is also well represented by organisations such as Snowdonia Active. Cultural interests are represented through the Authority's Bwrlwm Eryri initiative, several local history and cultural organisations, Cadw, and tourism trade associations. Accordingly, it is not considered necessary to establish a new forum or partnership to implement the actions established in this strategy. In addition, Snowdonia is serviced by two Tourism Partnerships and other tourism groups which have direct connections to many of the aims and may assist in their delivery.

Gweithredu Amcanion Cenedlaethol a Rhanbarthol
Delivering National and Regional Objectives

Mae gan weithgareddau hamdden gysylltiadau gyda nifer o sectorau sydd yn dylanwadu ar y Parc Cenedlaethol a'i rinweddau arbennig. Felly, wrth ddarparu'r Strategaeth hon mae'r Awdurdod wedi adolygu cynlluniau, polisïau a rhaglenni sydd yn berthnasol i gadwraeth, twristiaeth cynaliadwy, chwaraeon, iechyd a lles, iaith, diwylliant, hanes a datblygu economaidd.

Adolygu

Caiff y Strategaeth hamdden ei hadolygu bod pum mlynedd; bydd yr adolygiad hwn yn dilyn diwygiadau a wneir i Gynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol ac Adroddiad Sefyllfa'r Parc. Pwrpas yr adolygu cylchol hwn yw sicrhau bod y Strategaeth a dogfennau perthnasol eraill yn cael eu diwygio yn rheolaidd. Trwy adolygu'r cynnwys bob pum mlynedd bydd yr Awdurdod yn sicrhau bod y Strategaeth yn ymateb i dueddiadau newydd a gwahanol yn ogystal ag i newidiadau mewn polisïau cenedlaethol a lleol.

Recreation has linkages to several sectors which influence the National Park and its special qualities. Accordingly, in preparing this Strategy the Authority has reviewed plans, policies and programmes relating to conservation, sustainable tourism, sport, health and wellbeing, language, culture, history and economic development.

Review

The Recreation Strategy will be reviewed every five years; this review will follow revisions made to the National Park Management Plan and State of the Park Report. This cyclical review process is designed to ensure future revisions of the Strategy and other relevant documents. By reviewing the content every five years the Authority ensures that the Strategy responds to new and emerging trends in addition to national and local changes to policy.



Atodiad 1 - Gweithgareddau awyr agored
Appendix 1 - Active in the outdoors

Isod fe nodir y prif weithgareddau awyr agored y rhoddwyd ystyriaeth iddynt wrth ddatblygu camau gweithredu'r Strategaeth.

Cerdded - Cerdded ar y mynyddoedd a'r bryniau yw'r gweithgareddau hamdden mwyaf poblogaidd yn Eryri. Mae tynfa'r tirwedd yn cynnig cyfleoedd cerdded ac amrywiaeth eang fel bod rhywbeth ar gyfer pawb – o'r brif sialens o ddringo i gopa'r Wyddfa i esmwythder y daith gerdded hyd Lwybr y Mawddach.

Er bod cerdded yn boblogaidd ledled y Parc Cenedlaethol, caiff rhai ardaloedd eu defnyddio yn fwy nag eraill, yn arbennig felly Gadwyn yr Wyddfa, Cader Idris a Dyffryn Ogwen; mae'n hanfodol rheoli'r pwysau hwn er mwyn sicrhau diogelwch y defnyddwyr a'r amgylchedd fel ei gilydd. Yn 2009, dringodd bron 400,000 o bobl i gopa'r Wyddfa, cerddodd bron 240,000 yn Nyffrynnoedd Ogwen ac Idwal a chyrhaeddodd dros 58,000 i ben Cader Idris.

Dringo - Mae tirwedd Eryri yn ei gynnig ei hun i ddringo, clogfeinio a sgramblo; mae'r creigiau amlwg a'r rhigolau caregog yn ardaloedd perffaith ar gyfer pob graddfa o ddringo ac mae mynediad rhwydd i diriogaethau dringo ardderchog yn gosod Eryri ymhlith lleoliadau dringo gorau'r wlad.

Mae nifer o ardaloedd Eryri yn gyrchfannau dringo poblogaidd a'r prif ffocws ar Gadwyn yr Wyddfa, y Glyderau a'r Carneddau yn Nyffryn Ogwen; Mae Tremadog hefyd yn gyrchfan ddringo boblogaidd iawn. Yn gyffredinol, mae dringo yn weithgaredd sydd wedi ei threfnu'n dda, yn aml dan ofal clybiau dringo neu ddarparwyr dynodedig megis canolfannau awyr agored, er bod yr ardal yn boblogaidd hefyd gyda dringwyr unigol.

Beicio mynydd - Dros y ddau ddegawd diwethaf, mae beicio mynydd wedi dod yn llawer mwy poblogaidd ac mae Eryri wedi dod yn un o brif gyrchfannau beicio mynydd Ewrop. Ceir darpariaeth ar gyfer y twf hwn mewn safleoedd sydd yn eiddo i'r Comisiwn Coedwigaeth ac a reolir ganddynt; y mwyaf adnabyddus yw Coed y Brenin ger Dolgellau, Penmachno a Betws y Coed ac mae llwybrau poblogaidd eraill yn ardal Beddgelert ac yng nghoedwig Dyffryn Dyfi. Wrth i adnoddau pwrpasol gael eu sefydlu a'u datblygu gwelwyd lleihad yn y tensiwn rhwng beicwyr mynydd a grwpiau defnyddwyr eraill a darparwyd cyfleoedd ar gyfer nofyddion ac arbenigwyr fel ei gilydd. Ar yr un pryd, crëwyd cyfleoedd ar gyfer busnesau lleol. Fodd bynnag, gall beicio mynydd heb unrhyw reolaeth a thu hwnt i'r canolfannau hyn achosi erydiad ar y llwybrau a gwrthdaro gyda defnyddwyr eraill y llwybrau.

Below are the main active outdoor activities given consideration whilst developing Strategy's actions.

Walking - Mountain and hill walking are the most popular recreation activities in Snowdonia. The draw of the landscape offers walking opportunities of varying degrees of difficulty for hundreds of thousands of people – from the challenge of summiting Snowdon to the ease of the Mawddach trail.

Although walking is popular throughout the National Park, some areas are more heavily used than others, most notably the Snowdon Massif, Cader Idris and the Ogwen Valley; managing this pressure is vital in ensuring user safety and environmental protection. In 2009, Snowdon was climbed by almost 400,000 people, whilst almost 240,000 walked in the Ogwen and Idwal Valley and over 58,000 ascended Cader Idris.

Climbing - The terrain of Snowdonia lends itself to climbing, bouldering and scrambling; exposed rocks and craggy gullies provide perfect areas for all grades of climber. The ease of access to some of the finest climbing territories places Snowdonia among the top locations in the country.

Several areas are poplar climbing destinations with the focus primarily being on the Snowdon Massif and the Glyderau and Carneddau in the Ogwen Valley; Tremadog is also a very popular climbing destinations. In general, climbing is a well organised activity often carried out by climbing clubs or through designated providers such as outdoor centres, although the area is also popular with individual climbers.

Mountain biking - During the past two decades, mountain biking has grown rapidly in popularity and Snowdonia has become one of Europe's premier destinations. This growth has mainly been accommodated in sites owned and managed by the Forestry Commission; the most well-know being Coed y Brenin near Dolgellau, Penmachno and Betws y Coed with other routes around Beddgelert and in the Dyfi Valley forest also being popular. The development of purpose built facilities has reduced tensions between mountain bikers and other user groups whilst providing opportunities for novices and experts alike and creating local business opportunities. However, unregulated mountain biking away from these centres can cause issues of footpath erosion and conflict with other path users

Beicio - Yn ogystal â bod yn boblogaidd ar gyfer beicio mynydd, mae Eryri yn cynnig beicio ar ffyrdd ac ar lwybrau gradd isel. Caiff ardal Eryri ei defnyddio'n aml gan glybiau beicio lleol yn ogystal â chlybiau ar draws ardal ehangach. Mae gan yr ardal enw da o safbwynt beicio ffordd a theithiau beicio, ac mae rhwydwaith hwylus o ffyrdd ac amrywiaeth dda o elltydd a goriwaered yn fanteisiol iawn.

Pysgota - Mae pysgota yn weithgaredd hamdden o bwys yn Eryri, lle ceir nifer fawr o lynnoedd ac afonydd sydd yn cael eu rheoli a'u stocio ar gyfer pysgotwyr, ac mae'r cefndir a'r awyrgylch cystal ag a welir mewn unrhyw fan yn y byd.

Fel yn achos gweithgareddau eraill, mae pysgota yn boblogaidd ymhlith trigolion yr ardal ac ymwelwyr fel ei gilydd, gyda chlybiau, cymdeithasau a chwmnïau pysgota lleol yn chwarae rhan bwysig o ran rheoli'r sector. Caiff yr ardal ei defnyddio hefyd ar gyfer pysgota môr. Oherwydd ei bod yn ddibynnol ar amgylchedd o ansawdd uchel mae'r sector bysgota yn weithredol yn y gwaith o wella cynefinoedd lleol ac mae nifer o adroddiadau a gyhoeddwyd yn tanlinellu pwysigrwydd diogelu a gwella'r amgylchedd er budd dyfodol y weithgaredd hon.

Gweithgareddau dŵr - Er bod llynnoedd, afonydd a nentydd yn niferus iawn yn Eryri, cyfyngir gweithgareddau dŵr i nifer fach o leoliadau; mae hyn yn bennaf oherwydd diffyg cyfleoedd a chaniatâd ar gyfer gweithgareddau dŵr. Lle ceir hawl, mae gweithgareddau megis canŵio, hwylio, brigdonni, caiacio a nofio yn dod yn fwyfwy poblogaidd a nifer gynyddol o bobl yn dymuno cael mynediad at y gweithgareddau hyn ar sail achlysurol neu reolaidd. Mae cytundebau a hawliau mynediad yn bodoli ar rai afonydd ac ambell dro darperir cyfleusterau er mwyn cynyddu poblogrwydd y gweithgareddau. Mae yma bosibiliadau ar gyfer cynyddu mynediad a defnydd hamdden trwy lunio cytundebau lleol.

Cyfeiriadau - Yn gyffredinol caiff cyfeiriadu ei gynnal o fewn blociau o fforestydd sydd dan reolaeth neu ar gyrsiau sydd wedi eu cynllunio. Er bod y weithgaredd yn gynyddol boblogaidd, nid yw'n denu cymaint o gyfranogwyr â gweithgareddau eraill o ystyried y lefel o ffitrwydd a sgiliau sydd eu hangen. Oherwydd hynny, nid yw'r problemau a gysylltir â'r gweithgareddau poblogaidd yn berthnasol i gyfeiriadu.

Cycling - In addition to being popular for mountain biking, Snowdonia offers excellent on-road and low-grade trail cycling. Snowdonia is heavily used by local cycling clubs as well as those from further afield. It has a developing reputation for road cycling and cycle touring, both of which benefit from a good road network with varying degrees of ascents and descents.

Angling - Angling is an important recreation activity in Snowdonia, with many lakes and rivers managed and stocked to cater for anglers, whilst the backdrop combines to provide a world leading venue.

As in the case of other activities, angling is popular among residents and visitors alike with local fishing clubs, associations and societies heavily involved in managing the sector. The area is also used for sea angling. Due to its reliance on a high quality environment, the fishing sector is active in improving local habitats and relevant publications highlight the importance of conserving and enhancing the environment for the future of the sport.

Water sports - Although Snowdonia is peppered with lakes, rivers and streams, water sports are confined to a limited number of locations; this is primarily due to a lack of opportunities where water sports are permitted. Where permitted, water sports such as canoeing, sailing, wind surfing, kayaking and swimming are increasingly popular with more people wishing to access these sports on a casual and regular basis. Some rivers do have agreement and rights of access and egress, occasionally providing facilities to encourage use. There is scope to increase access and recreational use through local agreements

Orienteering - Orienteering usually takes place within managed forestry blocks or on pre-planned courses. Although increasingly popular, it does not generate as many participants as other activities given the fitness and skills levels required. Accordingly orienteering is not associated with the problems experienced with more popular activities.

Rhedeg mynyddoedd / ffriddoedd – Yn aml, gwelir rhedeg mynyddodd / ffriddoedd fel gweithgaredd atodol i ddringo a cherdded. Fwyaf aml, mae rhedeg ffriddoedd yn dilyn llwybrau ac mae ei effaith yn debyg i gerdded a dringo mynyddoedd. Cynhelir nifer o rasys mynydd a ffridd yn Eryri, y mwyaf enwog ohonynt yw Ras yr Wyddfa a Ras Cader Idris; er bod defnydd mor ddwys yn cynyddu erydiad, mae manteision digwyddiadau a reolir yn dda yn gorbwyso unrhyw effaith negyddol.

Digwyddiadau a rasys wedi eu trefnu – Oherwydd ei enw da, ei dirwedd ac ansawdd uchel ei amgylchedd, mae Eryri yn croesawu nifer fawr o ddigwyddiadau a rasys yn ymwneud â gweithgareddau hamdden, llawer ohonynt er budd elusennau lleol a chenedlaethol. Os yw'r rhain wedi eu trefnu'n dda (o safbwynt lleoliad, gweithio mewn partneriaeth, defnydd o gludiant cyhoeddus ac amser ar y flwyddyn) ychydig iawn o broblemau a achosir ganddynt, a gallant gyfrannu tuag at sicrhau bod y Parc Cenedlaethol yn cynnig profiadau positif ar gyfer yr holl ddefnyddwyr tra ar yr un pryd yn hybu'r economi leol.

Grwpiau Addysgiadol gweithgareddau a chanolfannau awyr agored – Mae gweithgareddau grŵp sydd wedi eu trefnu yn hanfodol er mwyn hyrwyddo gwybodaeth a dealltwriaeth am y Parc Cenedlaethol tra hefyd yn cynnig cyfleoedd ar gyfer datblygiad personol a datblygiad grŵp. Mae'r gweithgareddau hyn yn cynnig amrywiaeth eang o gyfleoedd, yn bennaf i bobl ifanc, trwy'r canolfannau addysg niferus sydd wedi eu lleol yn Eryri. Mae lle hefyd i ganolfannau ymestyn eu hapêl a chyrraedd marchnadoedd newydd gan annog diddordeb ar lefel llawer ehangach.

Marchogaeth – Er bod gan Eryri 171 o lwybrau a ddosberthir fel llwybrau marchogaeth, nid ydynt ar y funud yn ffurfio rhwydwaith dros holl ardal y Parc. Gallai gwell rheolaeth sbarduno cynnydd mewn gweithgareddau marchogaeth oherwydd er bod yna nifer o ganolfannau marchogaeth a merlota yn Eryri, byddai gwell darpariaeth ar gyfer defnyddwyr unigol o gymorth i gynyddu'r defnydd ohonynt.

Gweithgareddau Awyr – Defnyddir nifer o leoliadau yn Eryri fel safleoedd lansio ar gyfer para hedfan a llaw hedfan; mae mwyafrif y defnyddwyr yn aelodau o glybiau hedfan swyddogol. Oherwydd y gost a'r arbenigedd sydd ei angen i gymryd rhan yn y weithgaredd, mae nifer y cyfranogwyr yn gyfyng; fodd bynnag mae Eryri yn prysur ddod yn boblogaidd gyda'r rhai mwyaf brwdfrydig.

Gweithgareddau Gyrru oddi ar y ffordd – Defnyddir rhai ardaloedd yn Eryri ar gyfer gweithgareddau hamdden oddi ar y ffordd i gerbydau 4x4 a beiciau modur. Mae'r ddau weithgaredd yn amhoblogaidd gyda thirfeddianwyr a defnyddwyr eraill oherwydd yr effaith ar dawelwch yr ardal ac oherwydd eu bod yn dinistrio cynefinoedd ac yn erydu'r tir; fodd bynnag mae rhywfaint o'r weithgaredd hon yn digwydd yn gyfreithlon ar ffyrdd diddosbarth ac ar diroedd preifat.

Fell / mountain running - Fell /mountain running is often a supplementary activity to climbing and walking. Most fell running takes place along footpaths and its impacts are similar to hill and mountain walking. Snowdonia hosts a number of fell and mountain races, the most famous being the Snowdon and Cader Idris Races; although such intense use increases erosion, the benefits of well managed events outweigh any negatives

Organised Events and races - Due to its reputation, landscape and high quality environment, Snowdonia hosts a number of recreation linked events and races, many of which benefit local and national charities. If well planned (in terms of location, partner involvement, use of public transport and time of year etc) these events cause few problems and can contribute towards ensuring the National Park is providing positive experiences for all users, whilst benefiting the local economy.

Educational Group activities and outdoor centres - Organised group activities are invaluable in furthering knowledge and understanding of the National Park whilst offering opportunities for personal and group development. These afford an array of opportunities, mainly for young people, through the many education centres located in Snowdonia. There are opportunities for centres to extend their appeal to new markets and encourage wider participation.

Equestrian – Although Snowdonia has 171 routes classed as bridleways, they do not currently form a Park-wide network. Improved management could spur a growth in equestrian activity as there are several riding and trekking schools located in Snowdonia, whilst better provision for individual users would also boost use.

Air Sports - Several locations within Snowdonia are used as launch sites for paragliding and hand gliding; most users are members of organised flying clubs. Because of the expense and expertise required to partake in the sport, it is still relatively restricted; however Snowdonia is becoming more popular with enthusiasts.

Motorised Off-Road Activites - Areas of Snowdonia are used for both off-road 4x4 and motorbike recreation. Both pastimes are largely unpopular with landowners and other users because of its impact upon tranquillity, habitat destruction and erosion; however some of this activity takes place legally on unclassified roads and private land.

Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Strategaeth Hamdden
20012-2017
Snowdonia National Park Authority
Recreation Strategy

Atodiad 2 – Hamddena Diwylliannol & Amgylcheddol
Appendix 2 – Cultural & Environmental Recreation

Mae'r penawdau a ganlyn wedi cael eu hadnabod fel gweithgareddau diwylliannol ac amgylcheddol allweddol a ystyriwyd yn ystod paratoad Nodau ac Amcanion y Strategaeth. Maen nhw i gyd yn seiliedig ar rinweddau arbennig y Parc Cenedlaethol a'u rhyngddibyniaeth. Yn gyffredinol nid yw eu heffaith ar y rhinweddau arbennig gymaint, neu maent yn llai uniongyrchol na'r rhai sydd a wnelo gweithgaredd hamddena.

Teithiau Gyrru & Bysus - mae tirwedd Eryri a'r dreftadaeth ddiwylliannol yn denu teithiau mewn ceir ac mewn bysus. Mae'r teithiau hyn fel rheol yn dilyn llwybrffyrdd tebyg, ac maent fel rheol yn cynnwys y teithiau sy'n cynnwys golygfeydd ac atyniadau mwyaf eiconig Eryri, ac maent yn darparu cyfleoedd economaidd ar gyfer busnesau lleol. Er nad yw'r effaith ar rinweddau arbennig Eryri mor uniongyrchol â gweithgareddau eraill, mae tagfeydd traffig a pharcio ceir yn anghyfreithlon yn effeithio yn ddirfawr ar gymunedau lleol y dirwedd a natur wledig Eryri a'i isadeiledd cludiant.

Gwylio Bywyd Gwyllt - mae Eryri yn gyrchfan boblogaidd gydol y flwyddyn ymysg rhai sy'n gwylio bywyd gwyllt a hynny o achos bod yr amrywiaeth ecolegol yn ffynnu yn y cynefinoedd amrywiol. Yn gyffredinol, nid yw gweithgaredd o'r fath yn cael ei reoli fel y cyfryw a dim ond ychydig o safleoedd sydd wedi cael eu datblygu yn benodol ar gyfer y pwrpas hwn gyda darpariaethau fel rhodfeydd coed neu guddfannau. Er bod gweithrediadau anghyfrifol yn gallu arwain at aflonyddwch, fel rheol dim ond yn achlysurol mae pethau fel hyn yn digwydd ac fel arfer nid yw hynny'n digwydd yn bwrpasol

The following headings have been identified as key cultural and environmental recreation activities given consideration during the preparation of the Strategy's Aims and Actions. All are based on the National Park's special qualities and their interdependence. In general their impacts upon the special qualities are not as great, or less direct than those attributed to activity recreation

Driving & coach tours - Snowdonia's landscape and cultural heritage are a draw for driving and coach tours. These journeys usually follow similar routes, taking in the most iconic views and attractions of Snowdonia and provide economic opportunities for local businesses. Although the impact upon Snowdonia's special qualities are not as direct as other activities, congestion and illegal car parking impact heavily upon local communities, landscape, the rural nature of Snowdonia and its transport infrastructure.

Wildlife watching - Snowdonia is a popular year-round destination amongst wildlife watchers given the ecological diversity which flourishes in its varied habitats. Such activity is largely unmanaged as few sites have been specifically developed for this purpose with the provision of boardwalks or hides. Although irresponsible actions can lead to disturbance, such instances are occasional and usually unintentional.

Safleoedd Treftadaeth & Ymweliadau ag Atyniadau - Ar draws y Parc Cenedlaethol mae yna safleoedd sy'n bwysig yn ddiwylliannol, hanesyddol ac archeolegol; ac mae rhai ohonynt yn darparu cyfleusterau ar gyfer ymwelwyr, ond sylfaenol iawn yw rhai eraill. Mae'r safleoedd hyn yn darparu ffocws i ymwelwyr ac maent yn gyffredinol yn cael eu rheoli yn dda felly mae'r effeithiau ar y rhinweddau arbennig yn cael eu lleihau. Gall gôr ddatblygiad arwain at effaith ar y dirwedd a phroblemau traffig; gall parcio ceir fod yn rhywbeth sy'n codi yn ystod misoedd yr haf yn y safleoedd a'r atyniadau sydd fwyaf poblogaidd.

Digwyddiadau a Gwyliau - Mae nifer o ddigwyddiadau a gwyliau sy'n cael eu cynnal yn Eryri yn uniongyrchol berthnasol i'w threftadaeth ddiwylliannol a'r amgylchedd, er enghraifft, gwyliau celf, Eisteddfodau, gwyliau cerdded a nifer o sioeau gwledig / amaethyddol. Mae digwyddiadau o'r fath yn tynnu sylw at rinweddau Eryri, yn enwedig y rhai sy'n berthnasol i hunaniaeth ddiwylliannol a chelf. Gall effeithiau lleol gynnwys tagfeydd traffig, er, yn gyffredinol mae'r rhain yn cael eu rheoli yn dda gan y trefnwyr fel rheol.

Astudio - Mae Eryri yr un mor amlwg ac erioed yn y modd y maen cyfoethogi ein gwybodaeth o'r byd naturiol ac mae hynny yn parhau hyd heddiw. Mae'r ardal yn boblogaidd ymysg grwpiau addysgol o bob oed ac arbenigrwydd. Yn gyffredinol mae'r grwpiau hyn yn astudio effeithiau rhewlifau ar y dirwedd ac ar ei fflora a'i ffawna er mae sylw cynyddol yn cael ei roi i bethau fel cludiant, a materion cymdeithasol ac economaidd. Mae'r mwyafrif o grwpiau di breswyl yn aros yn un o'r canolfannau astudio niferus sydd wedi eu lleoli yn Eryri. Mae safleoedd sy'n cael eu defnyddio yn drwm, fel Cwm Idwal, angen systemau rheoli ychwanegol er mwyn ymdopi gyda'r nifer uchel o ymwelwyr, er bod effeithiau negyddol o'r fath yn cael eu cymedroli trwy gyfrwng y buddion addysgol ac yn sgil dealltwriaeth.

Celf & Ffotograffiaeth - Mae tirwedd Eryri yn parhau i ddarparu ysbrydoliaeth i artistiaid fel y gwnaeth dros gyfnod o genedlaethau. Mae mynediad da i' gefn gwlad yn meithrin yr enw da hwn ac mae'n cryfhau y rhinweddau hynny sy'n berthnasol i ddiwylliant tra'n hyrwyddo gwerthfawrogiad ehangach o'r dirwedd.

Heritage sites & attraction Visits - Throughout the National Park there are sites of cultural, historical and archaeological significance; some of which provide visitor facilities, whilst others are more minimal. These sites provide a focus for visitors and are largely well managed therefore reducing impacts upon the special qualities. Overdevelopment can lead to landscape impacts and traffic problems; with car parking is an issue during the summer months at the most popular sites and attractions.

Events and festivals - A number of events and festivals held in Snowdonia relate directly to its cultural heritage and environment, for example arts festivals, Eisteddfodau, walking festivals and several country/agricultural shows. Such events highlight many of Snowdonia's qualities, especially those relating cultural identity and the arts. Localised impacts can include congestion, although these are well managed in the main by organisers.

Study - Snowdonia's prominence in furthering our knowledge of the natural world continues to the present day. The area is popular with educational groups of all ages and expertise. In the main these groups study the effects of glaciations upon the landscape and its flora and fauna although increasing attention is being paid to transport, social and economic issues. The majority of non-resident groups stay in one of the many study centres located around Snowdonia. Heavily used sites, such as Cwm Idwal, require additional management measures to negate the high footfall, although such negatives are usually equated by the understanding and educational benefits.

Art & photography - Snowdonia's landscape continues to provide inspiration for artists as it has done for generations. Good access to the countryside fosters this reputation and strengthens qualities relating to culture whilst promoting a wider appreciation of the landscape.

Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Strategaeth Hamdden
20012-2017
Snowdonia National Park Authority
Recreation Strategy

Atodiad 3
Appendix 3

Gweithredoedd ac Amcanion Perthnasol Cynllun Rheolaeth
Relevant National Park Management Plan Objectives & Actions

Amcan 1 - Rheoli effeithiau newid yn yr hinsawdd drwy liniaru ac addasu, gan gynnwys lleihau gollyngiadau nwy sy'n newid yr hinsawdd, lleihau defnydd ynni a rheoli perygl llifogydd yn well.

Gweithrediadau

dd. Lleihau effeithiau negyddol traffig ar y Parc Cenedlaethol trwy leihau'r angen i deithio a hyrwyddo cludiant cyhoeddus ymysg trigolion ac ymwelwyr.
e. Darparu a hyrwyddo cyfleusterau sy'n annog beicio a cherdded fel modd o gymudo a hamddena trwy hyrwyddo llwybrau sy'n bodoli'n barod a cheisio sefydlu rhagor o lwybrau beicio.
f. Hyrwyddo arferion da o fewn y sector twristiaeth gynaladwy gan annog mentrau perthnasol a mentrau cyhoeddusrwydd cysylltiol.
ff. Defnyddio Eryri i dynnu sylw at ddylanwad dyn ar yr amgylchedd naturiol gyda newid hinsawdd fel y peth mwyaf amlwg.

Amcan 6 - Sicrhau fod dŵr mewndirol ac arfordirol yn cael ei ddefnyddio yn gynaliadwy, gan gynnwys yr amgylchedd morol.

Gweithrediadau

a. Sicrhau fod arferion rheoli tir yn gydymdeimladwy tuag at gynnal a gwella ansawdd dŵr.

Amcan 8 - Gwarchod a gwella tirweddau nodedig a mathau o gymeriad gan gynnwys ardaloedd o lonyddwch a distawrwydd.

Gweithrediadau

a. Amlygu pwysigrwydd tirwedd Eryri fel gyrrwr economaidd, ffynhonnell ysbrydoliaeth, atyniad ymwelwyr ac adnodd diwylliannol.
c. Sicrhau bod cynlluniau, prosiectau a rhaglenni strategol a gofodol rhanbarthol yn cyfeirio at, ac yn cydnabod pwysigrwydd Eryri.
d. Lleihau effeithiau negyddol hamdden ar y rhinweddau arbennig, er enghraifft, rheoli parcio oddi ar y ffordd, erydiad llwybrau troed, adloniant moduro amhriodol oddi ar y ffordd ac ar y dŵr a dirywiad cynefinoedd.

Amcan 10 - Datblygu prosiectau arloesol sy'n deillio o ddynodiad Biosffer UNESCO yn Nyffryn Dyfi.

Objective 1 - Manage the effects of climate change through mitigation and adaptation, including reductions in climate changing gas emissions, reductions in energy consumption and improved flood risk management

Actions

f. Reduce the negative impacts of traffic on the National Park by lessening the need to travel and promoting public transport to residents and visitors.
g. Encourage cycling and walking as a means of commuting and recreation by publicising existing routes and seeking additional cycle paths.
h. Promote good practice within the sustainable tourism sector by encouraging relevant initiatives and associated publicity.
i. Use Snowdonia to highlight human influences on the natural environment, most notably climate change.

Objective 6 - Ensure sustainable use of high quality inland and coastal waters, including the marine environment.

Actions

Ensure land management practices are sympathetic to maintaining and enhancing water quality.

Objective 8 - Protect and enhance distinctive landscapes and character types including areas of tranquillity.

Actions

a. Highlight the importance of Snowdonia's landscape as an economic driver, source of inspiration, visitor attraction and cultural resource.
c. Ensure that regional strategic and spatial plans, projects and programmes make reference to, and recognise the importance of Snowdonia.
e. Reduce the negative effects of recreation on the special qualities by, for example, managing off road parking, footpath erosion, inappropriate off-road and water based motor recreation and habitat degradation.

Objective 10 - Develop innovative projects emanating from the UNESCO Biosphere designation in the Dyfi Valley.

Amcan 11 - Deall, gwerthfawrogi, gwarchod a gwella: Henebion Cofrestredig, Adeiladau Rhestredig, Ardaloedd Cadwraeth a thirweddau hanesyddol rhestredig.

Gweithrediadau

a. Gwella cymeriad a golwg Ardaloedd Cadwraeth, Adeiladau Rhestredig a Henebion Rhestredig a'u lleoliadau trwy well cyfarwyddyd a chydymffurfiaeth. Mae hyn I gynnwys cynhyrchu Cynlluniau Rheolaeth Ardaloedd Cadwraeth.
b. Amlygu pwysigrwydd economaidd yr amgylchedd hanesyddol.

Amcan 12 - Deall, gwerthfawrogi, gwarchod a gwella: safleoedd nad ydynt wedi eu dynodi, strwythurau a'r amgylchedd hanesyddol ehangach.

Gweithrediadau

a. Gwella diogelwch ac ymwybyddiaeth o dreftadaeth ddiwylliannol gyfoethog y Parc Cenedlaethol.

Amcan 13 - Dathlu amrywiaeth a hynodrwydd lleol, yn cynnwys hunaniaeth ieithyddol.

Gweithrediadau

a. Sicrhau fod cefnogaeth yn cael ei darparu i ddigwyddiadau a rhaglenni sy'n dathlu diwylliant lleol a/neu wella cysylltiadau gyda diwylliannau eraill.
ch. Hyrwyddo diwylliant lleol arbennig yr ardal yn genedlaethol a rhyngwladol, er enghraifft trwy fenter treftadaeth ddiwylliannol Bwrlwm Eryri.

Amcan 14 - Gwella mynediad i fannau agored ar dir a dŵr, gan gynnwys hawliau tramwy presennol.

Gweithrediadau

a. Gwella cyfleoedd ar gyfer mynediad trwy gyflenwad effeithiol Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy. Ceisio am adnoddau ychwanegol er mwyn adeiladu ar lwyddiant Partneriaeth Llwybrau'r Ucheldir.
b. Mewn achosion priodol, gwella cyfleoedd ar gyfer defnydd cynaladwy a chyfrifol ddŵr mewndirol.
c. Annog defnyddwyr hamdden i weithredu'n ôl côd ymddygiad cytûn.

Amcan 15 - Cynyddu'r ardal sy'n hygyrch i bobl anabl a'r rheini o wahanol gefndiroedd cymdeithasol.

Gweithrediadau

a. Gwella mynediad i bobl anabl at gyfleoedd hamdden a mwynhad drwy Eryri gyfan, trwy gynyddu hyd llwybrau pob gallu a'r isadeiledd cysylltiedig.
b. Darparu cyfres o ddigwyddiadau i annog pobl anabl i fwynhau rhinweddau arbennig Eryri.
c. Hyrwyddo ymchwil i'r rhwystrau a wynebir gan grwpiau sydd wedi eu heithrio'n gymdeithasol mewn perthynas â'r Parc Cenedlaethol.
ch. Darparu cefnogaeth i grwpiau sy'n cynrychioli aelodau sydd wedi eu heithrio'n gymdeithasol ac sy'n dymuno cael mynediad a mwynhau'r Parc Cenedlaethol.

Objective 11 – Understand, value, protect and enhance: Scheduled Ancient Monuments, Listed Buildings, Conservation Areas and listed historic landscapes.

Actions

a. Improve the character and appearance of Conservation Areas, Listed Buildings and Scheduled Ancient Monuments and their settings through improved guidance and compliance. This is to include the production of Conservation Area Management Plans.
b. Highlight the economic importance of the historic environment.

Objective 12 - Understand, value, protect and enhance: non designated sites, structures and the wider historic environment.

Actions

a. Improve protection and awareness of the rich cultural heritage of the National Park.

Objective 13 - Celebrate local diversity and distinctiveness, including linguistic identity.

Actions

a. Ensure support is provided for events and programmes which celebrate local culture and/or improve links with other cultures.
d. Promote the distinctive local culture of the area, nationally and internationally - for example through the Bwrlwm Eryri cultural heritage venture.

Objective 14 - Improve access to open space on land and water, including existing public rights of way.

Actions

a. Improve opportunities for access by way of the effective delivery of Rights of Way Improvement Plans. Seek additional resources to build upon the success of the Upland Footpath Partnership.
b. In appropriate cases improve opportunities for the sustainable and responsible use of inland waters.
c. Encourage recreational users to act according to agreed codes of conduct.

Objective 15 - Increase the area accessible to disabled people and those from different social backgrounds

Actions

a. Improve access for disabled people to recreation and enjoyment opportunities throughout Snowdonia by increasing the length of all-ability paths and associated infrastructure.
b. Provide a series of events to encourage disabled people to enjoy Snowdonia's special qualities.
c. Promote research into the barriers faced by socially excluded groups in relation to the National Park.
d. Provide support for groups representing socially excluded members of society wishing to access and enjoy the National Park.

Amcan 16 - Cyhoeddi Strategaeth Hamdden Parc Cenedlaethol Eryri

Gweithrediadau

a. Paratoi Strategaeth Hamdden ar gyfer Eryri er mwyn sicrhau mynediad teg, eang a chynaladwy sy'n cydnabod yr angen i ddiogelu heddwch ac i beidio ag annog gweithgareddau niweidiol. Bydd yn cydnabod effeithiau negyddol i hamdden, fel pwysau traffig, a bydd yn ceisio sicrhau datrysiadau positif, er enghraifft trwy annog mynediad gyda chludiant cyhoeddus. Bydd y Strategaeth Hamdden hefyd yn ceisio hybu effeithiau positif economaidd a chymunedol hamddena o fewn y sector nwyddau a gwasanaethau amgylcheddol Eryri trwy geisio rheoli a datrys pwysau hamdden a chefnogi gweithgareddau priodol.

b. Gweithredu egwyddorion rheolaeth dda o gyrchfannau wrth ddarparu isadeiledd twristaidd priodol.

Amcan 17 - Hyrwyddo dealltwriaeth a mwynhado rinweddau arbennig y Parc Cenedlaethol.

Gweithrediadau

a. Hyrwyddo gweithgaredd economaidd priodol sy'n berthnasol i hamdden awyr agored a mentergarwch priodol.

b. Hyrwyddo llwybrau sy'n gysylltiedig â Llwybr Arfordir Cymru ac atyniadau eraill, megis safleoedd hanesyddol er mwyn ychwanegu gwerth i brofiad yr ymwelydd.

c. Gwella mynediad at wybodaeth sy'n hyrwyddo dealltwriaeth o'r Parc Cenedlaethol gan ddefnyddio'r dechnoleg ddigidol ddiweddaraf, fel podcastiau a deunydd a chyfryngau dehongli newydd eraill y gellir eu lawr lwytho, fel bo'n briodol.

ch. Adeiladu ar enw da Eryri fel un o 'ystafelloedd dosbarth awyr agored' gorau'r DU.

d. Annog lleihad yn y nifer o weithgareddauhedfan yn isel sy'n digwydd dros Eryri.

dd. Gweithio gyda phartneriaid i leihau'r digwyddiadau pan fo cerbydau oddi ar y ffordd yn cael eu defnyddio o fewn y Parc Cenedlaethol trwy ddefnyddio Gorchmynion Rheoleiddio Traffig os yw hynny'n ofynnol ac yn briodol.

Amcan 18 - Hyrwyddo dealltwriaeth a mwynhad o'r iaith Gymraeg a hunaniaeth ddiwylliannol.

Amcan 19 - Hyrwyddo'r defnydd o gludiant cynaladwy i ymwelwyr.

Gweithrediadau

a. Gwella mynediad trwy gludiant cyhoeddus i, o ac oddi mewn i'r Parc Cenedlaethol drwy wella rhyngnewidiadau, gwybodaeth a chysylltiadau i lwybrau beicio, cerdded a cheffylau rhanbarthol a chenedlaethol. Dylid hyrwyddo'r defnydd o gludiant cyhoeddus fel modd o deithio o amgylch Eryri.

Objective 16 – Publish a Recreation Strategy for Snowdonia National Park

Actions

a. Prepare a Recreation Strategy for Snowdonia to ensure equitable, widespread and sustainable access which recognises the need to protect tranquillity and discourage damaging activities. It will recognise the negative impacts of recreation, such as traffic pressure, and seek positive solutions, for example by encouraging access via public transport. The Recreation Strategy will also seek to boost the positive economic and community impacts of recreation within Snowdonia's environmental goods and services sector by seeking to manage and solve recreational pressures and supporting appropriate activities.

b. Implement the principles of good destination management in providing appropriate tourist infrastructure.

Objective 16 - Promote understanding and enjoyment of the National Park's special qualities

Actions

a. Promote appropriate economic activity relating to outdoor recreation and associated entrepreneurship.

b. Promote routes linked to the Wales Coastal Path and other attractions, such as historic sites, in order to add value to the visitor experience.

c. Improve access to information that promotes understanding of the National Park using the latest digital technology, such as podcasts and downloadable material and other new interpretation media as appropriate.

d. Build upon Snowdonia's reputation as one of the UK's best 'outdoor classrooms'.

e. Encourage reductions in the number of low flying activities taking place over Snowdonia.

f. Work with partners to reduce the instances of off-road vehicle use within the National Park, using Traffic Regulation Orders if required and where appropriate.

Objective 18 - Promote understanding and enjoyment of the Welsh language and cultural identity.

Objective 19 - Promote the use of sustainable transport to visitors.

Actions

a. Improve access via public transport to, from and within the National Park including improved interchanges, information and links to regional and national cycle, walking and horse-riding routes. Promote the use of public transport as a means of exploring Snowdonia.

Amcan 20 - Hyrwyddo cymunedau diogel, iach a chynaladwy, gan gynnwys darparu tai i gwrdd ag anghenion lleol a brofwyd.
Gweithrediadau
b. Hyrwyddo cysylltiadau rhwng gwelliannau yn yr isadeiledd hamdden, a'r agenda iechyd a lles.

Amcan 21 - Hyrwyddo twf economaidd yn y sectorau nwyddau a gwasanaethau amgylcheddol.
Gweithrediadau
a. Hyrwyddo twf economaidd yn y sector nwyddau a gwasanaethau amgylcheddol sy'n cynnwys yr holl weithgareddau sy'n deillio o amgylchedd iach o ansawdd uchel, gan gynnwys twristiaeth gynaladwy, ynni adnewyddol priodol, addysg,ymchwil a datblygu a chynnyrch amaethyddol.
b. Defnyddio dynodiad Eryri fel Parc Cenedlaethol i ddenu buddsoddiad mewnol i'r rhanbarth ehangach, gan wneud yn fawr o'i thirwedd o safon uchel, cymunedau cydlynol, buddiannau iechyd a lles a chyfleoedd hamdden.
c. Gwella rhaglenni hyfforddiant a chyfleoedd eraill i bobl leol ddatblygu sgiliau arweinyddiaeth gweithgareddau awyr agored.

Amcan 22 - Cynorthwyo i gyflenwi amcanion rhanbarthol sy'n ymwneud â thwristiaeth gynaladwy.
Gweithrediadau
a. Cynyddu cynaladwyedd twristiaeth, fel y sefydlwyd mewn strategaethau rhanbarthol, trwy wella sgiliau ar draws y sectorau cyhoeddus a phreifat a chyfathrebu egwyddorion cynaladwyedd i fusnesau twristiaeth ac ymwelwyr. Bydd gwaith i asesu ôl troed ecolegol Eryri'n hwb i hysbysu'r gweithgaredd hwn.

Amcan 23 - Hyrwyddo ymgysylltiad cymunedol.
Gweithrediadau
a. Rhoi cefnogaeth i gymunedau sy'n dymuno datblygu prosiectau fydd yn gwarchod a gwella rhinweddau arbennig Eryri.

Amcan 24 - Hyrwyddo a gwella gwasanaethau cludiant cynaladwy, yn cynnwys bysus, trenau, cerdded a beicio.
Gweithrediadauc. Integreiddio gwahanol foddau o drafnidiaeth i'w gwneud hwy yn fwy effeithiol a chyfleus i ddefnyddwyr.

Amcan 25 - Lleihau pwysau traffig a pharcio.
Gweithrediadau
a. Parhau i ddarparu cefnogaeth i bartneriaeth cludiant cynaladwy Goriad Gwyrdd Eryri.
b. Rheoli'r ddarpariaeth a chostau parcio ceir yn effeithiol

Objective 20 - Promote safe, healthy and sustainable communities
Actions
b. Promote linkages between improvements in the recreation infrastructure and the health and wellbeing agenda.

Objective 21- Promote economic growth in the environmental goods and services sectors.
Actions
a. Promote economic growth in the environmental goods and services sector that include all activities arising from a healthy and high quality environment, including sustainable tourism, appropriate renewable energy, education, research and development and agricultural production.
b. Use the designation of Snowdonia as a National Park to attract inward investment to the wider region, capitalising on its high quality landscape, community cohesion, health and well-being benefits and recreation opportunities.
c. Improve training programmes and other opportunities for local people to develop outdoor pursuit's leadership and associated skills.

Objective 22 - Assist in delivering regional objectives relating to sustainable tourism.
Actions
a. Increase the sustainability of tourism, as established in regional strategies, by improving skills across the public and private sectors and communicating sustainability principles to tourism businesses and visitors. Work to assess the ecological footprint of Snowdonia will help to inform this action.

Objective 23 - Promote community involvement.
Actions
a. Support communities wishing to develop projects which protect and enhance Snowdonia's special qualities.

Objective 24 - Promote and improve sustainable transport services, including bus, train, walking and cycling.
c. Integrate different modes of transport to make them more efficient and convenient for users.

Objective 25 - Reduce traffic and parking pressures.
Actions
a. Continue to provide support to the Snowdonia Green Key sustainable transport partnership.
b. Manage car parking provision and charges effectively.

Atodiad 4 - Rhinweddau Arbennig Parc Cenedlaethol Eryri
Appendix 4 - Special qualities

Yn eu hanfod, rhinweddau arbennig yw'r nodweddion amlwg sy'n diffinio Parc Cenedlaethol. Er gall y rhinweddau fod yn bresennol y tu allan i ffiniau'r Parc, oddi mewn i'w ffiniau maent fwyaf amlwg a nodedig. Mae darparu rhestr gynhwysfawr o'r rhinweddau hyn yn anodd, oherwydd bod nifer o rinweddau ysbrydoledig Eryri yn anniriaethol ac yn aml yn bersonol.
Fodd bynnag, trwy ymgynghori a thrafod gyda sefydliadau a chymunedau, dynodwyd amrediad o rinweddau arbennig fel rhai pwysig a nodedig i'r ardal. Y rhain yw:

1. amrywiaeth o dirweddau ac ardaloedd arfordirol o ansawdd uchel o fewn ardal ddaearyddol fechan, yn amrywio o arfordir i fryniau ucheldir i'r mynyddoedd geirwon mae Eryri'n enwog amdanynt;
2. synnwyr cadarn o gydlyniad cymunedol, perthyn a bwrlwm sy'n cyfuno i roi 'naws o le' cryf;
3. hyfywedd parhaus yr iaith Gymraeg fel prif iaith llawer o gylchoedd cymdeithasol a phroffesiynol. Mae'r agwedd hon yn amlwg mewn enwau lleoedd lleol, sy'n adlewyrchu treftadaeth ddiwylliannol yr ardal;
4. ardal sydd wedi ysbrydoli diwylliant, llên gwerin, celf, llenyddiaeth a cherddoriaeth fwyaf nodedig y genedl, sy'n parhau i ysbrydoli hyd heddiw;
5. y cyfle i bobl ddeall a mwynhau'r Parc Cenedlaethol yn actif, tra'n cynnal ardaloedd o lonyddwch ac unigedd, a thrwy hynny hyrwyddo agweddau o iechyd, lles a hunan fyfyrdod; cyfleoedd helaeth ar gyfer adloniant, hamdden a dysgu i bobl o bob oed a gallu;
6. tirweddau a threfluniau sy'n dangos effaith ddynol dros y canrifoedd, o gyfnod Neolithig hyd at heddiw. Mae tystiolaeth o hyn i'w weld mewn olion archaeolegol, enwau lleoedd a chaeau, hanes llafar ac ysgrifenedig ac ymarferion rheoli tir cyfredol. Gwelir treftadaeth bensaernïol Eryri yn nwysedd yr Adeiladau Rhestredig a'r amgylchedd adeiledig ehangach;
7. daeareg gymhleth, amrywiol a nodedig, fu'n hanfodol wrth ddylanwadu ar ddisgyblaethau daeareg a daearyddiaeth yn rhyngwladol;
8. bioamrywiaeth amrywiol yn adlewyrchu tirweddau, daeareg, arferion rheoli tir a hinsawdd Eryri. Mae rhai rhywogaethau a chynefinoedd o bwysigrwydd Cenedlaethol a rhyngwladol, er enghraifft, rhywogaethau sy'n olion o Oes yr Ia ddiwethaf sy'n cynnig cipolwg o gynefinoedd rhannol-Arctig. Eryri yw'r pwynt mwyaf deheuol yn y DU ar gyfer sawl rhywogaeth o'r fath.

Special qualities are essentially the defining characteristics of a National Park; they are distinctive and pronounced and set the area apart. Although some qualities may be present in areas outside the Park boundary, it is within the boundaries that they are most prevalent and marked. Providing a definitive list is difficult as many aspects, such as Snowdonia's inspirational features tend to be intangible and perceived and appreciated differently by individuals. However, through consultation and discussion with organisations and communities, a range of special qualities have been dentified as important and distinctive to the area. They are:

1. the diversity of high quality landscapes and coastal areas within a small geographic area -ranging from coast to rolling uplands to the rugged mountains for which Snowdonia is famed
2. the robust sense of community cohesion, belonging and vibrancy which combine to give a strong 'sense of place'
3. continuing vibrancy of the Welsh language as the primary language in many social and professional environments. This aspect is evident in local place names that reflect the area's cultural heritage
4. an area which has inspired some of the nation's most notable culture, folklore, art, literature and music, an influence which continues to the present day
5. the opportunity for people to understand and enjoy the National Park actively, whilst maintaining areas of tranquillity and solitude, thus promoting aspects of health, well-being and personal reflection
6. extensive opportunities for recreation, leisure and learning for people of all ages and ability; landscapes and townscapes which chart human interaction over centuries, from Neolithic times to the present day. This is evident in archaeological remains, place and field names, oral and written history and present day land management practices. Snowdonia's architectural heritage is reflected in the density of Listed Buildings and the wider historic environment
7. complex, varied and renowned geology, vital in influencing the disciplines of geology and geography internationally
8. varied biodiversity reflecting Snowdonia's landscapes, geology, land management practices and climate. Some species and habitats are of national and international significance, for example species which are remnants of the last Ice-Age, providing a glimpse of semi-Arctic habitats. Snowdonia is the most southerly point in the UK for many such species.

AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ERYRI
SNOWDONIA NATIONAL PARK AUTHORITY

Penrhyndeudraeth • Gwynedd • LL48 6LF
(01766 770274 2 01766 771211
parc@eryri-npa.gov.uk
www.eryri-npa.gov.uk